


Rhif ymchwil gymdeithasol: 51/2026

Dyddiad cyhoeddi: 19/03/2026

Mewnwelediadau grŵp ffocws y dreth gyngor: aelwydydd incwm isel, lleiafrifoedd ethnig ac anabl



Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd.

This document is also available in English.

Mewnwelediadau grŵp ffocws y dreth gyngor: aelwydydd incwm isel, lleiafrifoedd ethnig ac anabl

Awduron: Laura Nesbitt a Saadiah Hood, Strategic Research and Insight

Adroddiad Ymchwil Llawn: Nesbitt, L. and Hood, S. (2026)
Mewnwelediadau grŵp ffocws y dreth gyngor: aelwydydd incwm isel, lleiafrifoedd ethnig ac anabl Caerdydd: Llywodraeth Cymru, adroddiad GSR rhif 51/2026.

Ar gael yn: <https://www.llyw.cymru/mewnwelediadau-grwp-ffocws-y-dreth-gyngor-aelwydydd-incwm-isel-lleiafrifoedd-ethnig-ac-anabl>

Safbwyntiau'r ymchwilydd yw'r rhai a fynegir yn yr adroddiad hwn, ac nid rhai Llywodraeth Cymru o reidrwydd.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

Gwasanaethau Cyhoeddus a Llywodraeth Leol

Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

E-bost: Ymchwil.GwasanaethauCyhoeddus@llyw.cymru

Cynnwys

Rhestr o dablau.....	4
Rhestr o ffigurau	5
Geirfa.....	6
1. Cyflwyniad a chefnidir	7
1.1. Cefndir.....	7
1.2. Pam y cynhaliwyd yr ymchwil	7
2. Methodoleg	9
2.1. Dull Gweithredu	9
2.1.1. Pam roedd dulliau ansoddol yn briodol.....	9
2.1.2. Cyfweiliadau cwmpasu a chyfweiliadau â rhanddeiliaid	10
2.1.3. Grwpiau ffocws preswylwyr	10
2.1.4. Cyfweiliadau manwl gyda phreswylwyr	11
2.2. Monitro gwaith maes a recriwtio	11
2.2.1. Proffil y cyfranogwyr	12
2.3. Dadansoddi Data	16
2.4. Cyfyngiadau.....	17
3. Canfyddiadau: Dealltwriaeth a chanfyddiadau cyffredinol	18
3.1. Pa dri gair?	18
3.2. Deall y dreth gyngor.....	18
3.2.1. Gwahaniaeth yn ôl demograffeg neu grŵp	19
3.3. Ffi orfodol.....	19
3.4. Gwerth am arian?	20
3.5. Diffyg cydraddoldeb rhwng ardaloedd	21
3.6. Diffyg eglurder ynghylch dosbarthiad a gwariant y dreth gyngor	21
3.7. Arian cyhoeddus angenrheidiol	22
3.8. Derbyn y bil yn ddifater	23
4. Canfyddiadau: Effaith y dreth gyngor	24
4.1. Talu'r bil	24
4.2. Effaith ar gyllideb y cartref	25
4.3. Effaith ariannol.....	27
5. Canfyddiadau: Cyfathrebu, ymholiadau a chwynion	29

5.1.	Biliau post, llythyrau ac iaith	29
5.1.1.	Bil blynyddol a diwygiadau	29
5.1.2.	Iaith mewn llythyrau rhybuddio	30
5.1.3.	Cymariaethau â chwmnïau neu sefydliadau eraill	30
5.1.4.	Gwahaniaeth yn ôl grŵp demograffig	31
5.2.	Gwybodaeth a chymorth ar wefan yr awdurdod lleol	31
5.3.	Ffonio'r awdurdod lleol.....	32
6.	Canfyddiadau: Cael gafael ar gymorth.....	34
6.1.	Cymorth allanol (Cyngor ar Bopeth, hybiau, sefydliadau eraill)	34
6.1.1.	Gwahaniaeth yn ôl grŵp demograffig	34
6.2.	Ymwybyddiaeth o gefnogaeth awdurdodau lleol	35
6.2.1.	Gwahaniaeth yn ôl grŵp demograffig	36
6.3.	Profiad o gymorth gyda'r dreth gyngor.....	36
6.3.1.	Gostyngiad person sengl.....	36
6.3.2.	Anabledd	37
6.3.3.	Gostyngiad i fyfyrwyr	39
6.3.4.	Cyplau oedran cymysg	39
6.3.5.	Credyd Cynhwysol.....	39
6.4.	Cynlluniau talu	40
6.5.	Rhwysrau ac effeithiau pellach	41
6.5.1.	Cymhlethdod y ffurflenni.....	41
6.5.2.	Diffyg gwybodaeth	41
6.5.3.	Ddim yn helpu pawb sydd ei angen.....	42
6.5.4.	Rhwysrau ychwanegol i leiafrifoedd ethnig.....	43
7.	Awgrymiadau ar gyfer gwella	45
7.1.	Meddalu'r dull gweithredu wrth gasglu ôl-ddyledion	45
7.2.	Cyfeiriadau clir at gymorth a chyngor gyda'r bil	45
7.3.	Cymorth dyneiddiol	46
7.4.	Caniatáu i bobl ddewis eu dyddiad talu	46
7.5.	Ffurflenni syml	47
7.6.	Gwell tryloywder o ran gwariant.....	47
7.7.	Ymgysylltu â'r gymuned.....	48
7.8.	Bandio tecach.....	48
7.9.	Cefnogaeth ychwanegol ar gyfer y rhwysrau a wynebwr gan leiafrifoedd ethnig ...	48

8.	Casgliadau	49
	Atodiad A: Cyfweiliadau cwmpasu	52
	Sectorau a gynrychiolwyd	52
	Canllaw pwnc rhanddeiliaid	52
	Atodiad B: Canllaw pwnc ymchwil preswylwyr	55
	Canllaw pwnc ar gyfer grwpiau ffocws a chyfweiliadau manwl	55

Rhestr o dablau

Tabl 1: Grwpiau blaenoriaethol	13
Tabl 2: Cyfranogwyr yn ôl rhanbarth	13
Tabl 3: Cyfranogwyr yn ôl rhyw	13
Tabl 4: Cyfranogwyr yn ôl grŵp oedran	13
Tabl 5: Cyfranogwyr yn ôl ardal wledig neu drefol	14

Rhestr o ffigurau

Ffigur 1: Canlyniadau recriwtio.....	12
Ffigur 2: Ydych chi erioed wedi cael trafferth talu eich bil treth gyngor?	14
Ffigur 3: A yw eich bil treth gyngor wedi'i leihau neu ei ostwng?	15
Ffigur 4: Pa mor hyderus ydych chi'n teimlo ynghylch...?	16

Geirfa

Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (CTRS)

Cynllun sy'n helpu pobl ar incwm isel neu mewn rhai amgylchiadau i dalu llai o dreth gyngor. Fe'i gweinyddir gan awdurdodau lleol ac fel arfer bydd angen gwneud cais.

Debyd Uniongyrchol

Ffordd o dalu'r dreth gyngor yn awtomatig o gyfrif banc bob mis.

Awdurdod Lleol

Y cyngor sy'n gyfrifol am osod a chasglu'r dreth gyngor a darparu gwasanaethau lleol fel addysg, casglu ac ailgylchu gwastraff, gofal cymdeithasol a llyfrgelloedd.

Cynllun talu

Cytundeb gyda'r awdurdod lleol i ad-dalu ôl-ddyledion treth gyngor mewn rhandaliadau dros amser.

Grwpiau poblogaeth blaenoriaethol

Grwpiau a nodwyd ar gyfer yr ymchwil hon a allai wynebu heriau ariannol neu ymarferol ychwanegol wrth ryngweithio â system bresennol y dreth gyngor: aelwydydd incwm isel, cymunedau lleiafrifoedd ethnig ac aelwydydd anabl.

Cyfweliad cwmpasu

Cyfweliadau a gynhaliwyd â sefydliadau a rhanddeiliaid cyn y prif waith maes i helpu i ddeall materion a mireinio cwestiynau'r ymchwil.

Gostyngiad person sengl

Gostyngiad o 25% i aelwydydd lle cyfrifir mai dim ond un oedolyn sy'n byw yn yr eiddo.

SRI

Strategic Research and Insight Ltd

Dadansoddiad thematig

Dull dadansoddi ansoddol a ddefnyddir i nodi patrymau a themâu ar draws data grwpiau ffocws a chyfweliadau.

1. Cyflwyniad a chefnidir

1.1. Cefndir

Comisiynodd Llywodraeth Cymru Strategic Research and Insight (SRI) i gynnal ymchwil ansoddol i ddeall profiadau a barn pobl am system y dreth gyngor yng Nghymru. Mae'r ymchwil hwn yn rhan o raglen waith ehangach Llywodraeth Cymru i lywio ymrwymiad y [Rhaglen Lywodraethu](#) i ddiwygio'r dreth gyngor yng Nghymru.

Mae tua 1.5 miliwn o anheddau domestig yng Nghymru sy'n gorfod talu'r dreth gyngor. Gosodir pob eiddo yn un o naw band treth, A i I, yn seiliedig ar werthoedd eiddo ar 1 Ebrill 2003, y tro diwethaf i sylfaen brisio'r dreth gyngor gael ei diweddarau yng Nghymru.

Mae Asiantaeth y Swyddfa Brisio, sy'n annibynnol ar Lywodraeth Cymru, yn asesu gwerth eiddo ac yn dyrannu pob eiddo i fand. Mae gan bob band gyfradd dreth sy'n gymharol â'r pwynt canol, band D, ac mae'r cyfraddau treth hyn wedi'u nodi mewn deddfwriaeth gan Lywodraeth Cymru. Fodd bynnag, pennir y tâl band D ar gyfer pob ardal yn lleol gan gynghorau bob blwyddyn, yn dibynnu ar y refeniw sydd ei angen i ariannu gwasanaethau lleol. Dyna pam mae biliau'r dreth gyngor yn amrywio rhwng ardaloedd awdurdodau lleol.

Mae tua £2.8 biliwn yn cael ei godi o'r dreth gyngor yng Nghymru bob blwyddyn i helpu i ariannu ysgolion, gofal cymdeithasol ac ystod eang o wasanaethau eraill, gan gynnwys plismona, gwasanaethau tân a thrafnidiaeth. Mae'r dreth gyngor yn rhywbeth y mae'n rhaid i'r rhan fwyaf o bobl ei dalu i helpu i ariannu gwasanaethau cyhoeddus. Nid yw'n dâl am bob gwasanaeth a ddefnyddir, ac nid yw'n prynu rhai pethau.

Mae'r dreth gyngor hefyd yn cynnwys fframwaith o gymorth i bobl sydd ei angen, gan gynnwys cymorth i aelwydydd incwm isel drwy Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (CTRS), ochr yn ochr ag amrywiaeth o ostyngiadau ac esemptiadau. Mae bron i hanner aelwydydd Cymru yn cael rhyw fath o ostyngiad neu ddisgownt ar eu bil treth gyngor ar hyn o bryd.

Mae system bresennol y dreth gyngor yn seiliedig ar brisiadau eiddo sydd bellach dros 20 oed, ac mae cydnabyddiaeth gynyddol nad yw efallai'n adlewyrchu gallu pobl i dalu nac amgylchiadau teuluol modern.

1.2. Pam y cynhaliwyd yr ymchwil

Gall y dreth gyngor fod yn fil sylweddol i rai aelwydydd, yn enwedig yn ystod cyfnod o gostau byw cynyddol. Er bod rhai cyfranogwyr yn dangos dealltwriaeth gyffredinol o ddiben y dreth gyngor, roedd lefelau dealltwriaeth yn amrywio, a chafwyd llawer o drafodaeth am degwch, tryloywder a pha mor dda mae'r system bresennol yn adlewyrchu trefniadau byw modern, patrymau incwm a gwerthoedd tai.

Nod yr ymchwil hon oedd archwilio'r materion hyn yn fanwl a rhoi cyfle i drigolion ledled Cymru rannu eu profiadau bywyd. [Mae gwaith blaenorol wedi cynnwys modelu technegol a rhywfaint o ymgysylltu ansoddol.](#) Fodd bynnag, mae'r dystiolaeth ansoddol sy'n canolbwyntio'n benodol ar brofiadau bywyd y grwpiau poblogaeth canlynol wedi bod yn fwy

cyfyngedig: pobl ar incwm isel, aelwydydd anabl a phobl o gymunedau lleiafrifoedd ethnig. Mae'r gwaith hwn yn helpu i lenwi'r bwlch hwnnw.

Nod cyffredinol yr ymchwil oedd archwilio profiadau a chanfyddiadau o'r dreth gyngor ymysg rhai trigolion yng Nghymru a allai wynebu heriau ariannol neu ymarferol ychwanegol wrth ryngweithio â'r system.

Nodau'r ymchwil oedd:

- archwilio profiadau bywyd pobl o'r dreth gyngor
- deall canfyddiadau o degwch, tryloywder a gwerth am arian
- nodi heriau o ran talu, cyfathrebu, cymorth a hygyrchedd
- archwilio beth mae trigolion yn credu fyddai'n gwneud y system yn decach ac yn haws ei defnyddio
- casglu gwybodaeth i gefnogi'r broses o wneud penderfyniadau polisi yng Nghymru yn y dyfodol

Defnyddiodd yr ymchwil ddull cyfunol o grwpiau ffocws a chyfweiliadau manwl, gan ganiatáu archwilio profiadau cymunedol a rennir ochr yn ochr â myfyrdodau un-i-un mwy personol.

2. Methodoleg

2.1. Dull Gweithredu

Cynlluniodd SRI raglen ymchwil ansoddol i archwilio profiadau a chanfyddiadau pobl o'r dreth gyngor. Defnyddiwyd dulliau ansoddol oherwydd eu bod yn caniatáu i ymchwilwyr gasglu adroddiadau manwl am sut mae pobl yn deall ac yn rheoli'r dreth gyngor a'r ffactorau sy'n llywio eu profiadau. Roedd y dulliau hyn yn addas iawn i nodau'r prosiect, a oedd yn canolbwyntio ar brofiad bywyd, rhwystrau a thegwch canfyddedig.

Cynhaliwyd y gwaith maes ar gyfer yr astudiaeth rhwng mis Awst a mis Tachwedd 2025.

Roedd y rhaglen yn cyfuno:

- cyfweiliadau cwmpasu â rhanddeiliaid mewn sefydliadau sy'n cefnogi trigolion gyda chygngor ar y dreth gyngor, dyledion a lles
- grwpiau ffocws ar-lein gyda thrigolion o grwpiau poblogaeth blaenoriaethol
- cyfweiliadau manwl un-i-un ar gyfer cyfranogwyr yr oedd eu hamgylchiadau'n golygu bod sgwrs unigol yn fwy addas (er enghraifft oherwydd anghenion iaith, niwrowahaniaeth neu brofiad diweddar o ôl-ddyledion)

Cefnogwyd y gwaith maes gan ddangosfyrddau recriwtio a chwblhau byw, a oedd yn monitro cynnydd yn erbyn cwtâu ac yn helpu i sicrhau amrywiaeth ar draws daearyddiaeth, demograffeg ac amgylchiadau aelwydydd.

Cymerodd yr holl gyfranogwyr ran ar sail optio i mewn a chawsant daleb Love2Shop i ddiolch iddynt am eu hamser (taleb o £30 i gyfranogwyr am gyfweiliad manwl a thaleb o £40 i gyfranogwyr grŵp ffocws).

2.1.1. Pam roedd dulliau ansoddol yn briodol

Dewiswyd dulliau ansoddol am eu bod yn:

- galluogi ymchwilwyr i ddeall sut mae pobl yn profi'r dreth gyngor yn eu geiriau eu hunain
- rhoi mewnwelediad i faterion cymhleth fel tegwch, gorbryder, rhwystrau cyfathrebu a phwysau ariannol
- galluogi'r prosiect i archwilio gwahaniaethau rhwng grwpiau a allai wynebu mwy o anfantais neu rwystrau

Fodd bynnag, ni ellir defnyddio ymchwil ansoddol i gynrychioli barn pawb yng Nghymru. Mae'n rhoi mewnwelediad manwl a phersonol i brofiadau pobl, ac mae hyn yn helpu i ychwanegu dyfnder at ddata arolygon a data gweinyddol presennol, ond ni ddylid ystyried bod y canfyddiadau'n ystadegol gynrychioladol.

2.1.2. Cyfweiliadau cwmpasu a chyfweiliadau â rhanddeiliaid

Cynhaliwyd chwe chyfweiliad cwmpasu gyda sefydliadau ar draws sectorau cyngor a chymorth perthnasol rhwng mis Awst a mis Medi 2025. Roedd y cyfweiliadau fel arfer yn para 45-60 munud ac yn edrych ar brofiadau o gefnogi trigolion gyda'r dreth gyngor, dyled a mynediad at gymorth. Mae manylion y sectorau a gynrychiolir yn y cyfweiliadau cwmpasu, ynghyd â'r canllaw pwnc a ddefnyddiwyd, ar gael yn Atodiad A. Roedd y cyfweiliadau hyn yn edrych ar y canlynol:

- safbwyntiau ar system y dreth gyngor a chynlluniau cymorth
- heriau cyffredin y mae defnyddwyr gwasanaeth yn eu hwynebu
- enghreifftiau o arferion da
- cwestiynau sy'n dod i'r amlwg ar gyfer yr ymchwil preswylwyr

Helpodd mewnwelediadau o'r cyfweiliadau hyn i lunio'r canllawiau pwnc ar gyfer grwpiau ffocws a chyfweiliadau manwl a darparu cyd-destun pwysig ar gyfer dehongli profiadau cyfranogwyr. Er eu bod yn cynrychioli gwahanol gymunedau a meysydd gwasanaeth, cododd rhanddeiliaid nifer o themâu cyson a oedd yn llywio cyfeiriad yr ymchwil ac yn darparu cyd-destun pwysig ar gyfer dehongli profiadau preswylwyr. Roedd y rhain yn cynnwys pwysau cost a fforddiadwyedd, rhwystrau cyfathrebu, ymwybyddiaeth gyfyngedig o gymorth, allgáu digidol, ofn a phryder ynghylch gorfodi, cymorth allanol gan gyfryngwyr dibynadwy, a gwahaniaethau mewn cymorth rhwng awdurdodau lleol.

2.1.3. Grwpiau ffocws preswylwyr

Cynhaliwyd deg grŵp ffocws preswylwyr ledled Cymru ym mis Hydref 2025, a oedd yn cynnwys cyfanswm o hanner cant o gyfranogwyr:

- chwe grŵp ar-lein, gan ganiatáu cyrhaeddiad daearyddol ehangach
- pedwar grŵp wyneb yn wyneb mewn lleoliadau cymunedol hygyrch ar draws gwahanol ranbarthau

Dewiswyd lleoliadau i fod yn hygyrch ac yn gyfarwydd i'r cyfranogwyr, gan helpu i greu amgylchedd cyfforddus lle'r oedd pobl yn teimlo eu bod yn gallu siarad yn agored:

- Canolfan Gymunedol Butetown (Caerdydd)
- Prosiect Datblygu'r Congo (Abertawe)
- Hyb Cymunedol Taj Mahal (Machynlleth, Canolbarth Cymru)
- Siambr Clwyd (Y Rhyl, Gogledd Cymru)

Roedd pob grŵp yn para tua 60 munud. Roedd y canllaw pwnc yn ymdrin ag ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r dreth gyngor, profiadau o dalu a rheoli biliau, cyfathrebu

a gwybodaeth gan awdurdodau lleol, ymwybyddiaeth a phrofiad o gymorth a gostyngiadau, canfyddiadau o degwch a gwerth am arian, ac awgrymiadau ar gyfer gwella.

2.1.4. Cyfweiliadau manwl gyda phreswylwyr

Cynhaliwyd deg cyfweiliad manwl un-i-un gyda phreswylwyr rhwng mis Medi a mis Tachwedd 2025 er mwyn i'r cyfranogwyr allu siarad yn fanylach am brofiadau sensitif neu gymhleth. Roedd y cyfweiliadau'n para tua 30 munud ac yn ymdrin â materion fel ôl-ddyledion, anawsterau cyfathrebu, anghenion hygyrchedd, ffactorau iechyd meddwl a newidiadau yn amgylchiadau aelwydydd. Mae'r canllawiau pwnc a ddefnyddiwyd ar gyfer grwpiau ffocws a chyfweiliadau manwl ar gael yn Atodiad B.

2.2. Monitro gwaith maes a recriwtio

Cafodd y cyfranogwyr eu recriwtio drwy:

- atgyfeiriadau a hyrwyddo drwy awdurdodau lleol, asiantaethau cynghori a sefydliadau cymunedol
- cyfryngau cymdeithasol wedi'u targedu

Rheolwyd recriwtio drwy holiadur sgrinio ar-lein a gynhaliwyd gan ddefnyddio [Snap Surveys](#). Cafodd yr holiadur sgrinio ei hyrwyddo drwy hysbysebion wedi'u targedu ar gyfryngau cymdeithasol (gan gynnwys Facebook a Messenger) a thrwy atgyfeiriadau a hyrwyddo drwy awdurdodau lleol, asiantaethau cynghori a sefydliadau cymunedol.

Cymerodd yr holiadur sgrinio tua 5 i 7 munud i'w lenwi ac roedd ar gael i'w lenwi rhwng mis Medi a mis Tachwedd 2025.

Cwblhawyd yr holl sgrinio ar-lein. Ni chynigwyd ffurflenni papur oherwydd gofynion diogelu data a rheoli gwybodaeth, yn enwedig o ystyried y byddai gwybodaeth bersonol a allai fod yn sensitif yn cael ei chasglu. Pan oedd rhanddeiliaid yn hyrwyddo'r ymchwil yn uniongyrchol i ddefnyddwyr gwasanaeth, cyfeiriwyd unigolion at yr holiadur sgrinio ar-lein i gofrestru eu diddordeb.


Roedd cwestiynau sgrinio yn sicrhau bod cyfranogwyr yn:

- byw yng Nghymru
- yn gyfrifol ar hyn o bryd am dalu'r dreth gyngor neu â phrofiad diweddar o wneud hynny
- bodloni o leiaf un maen prawf blaenoriaeth (aelwyd incwm isel, cymuned lleiafrifoedd ethnig neu aelwyd anabl), yn seiliedig ar wybodaeth hunangofnodedig a ddarparwyd wrth recriwtio

Pennwyd statws incwm isel drwy hunanasesiad cyfranogwyr yn hytrach na gwiriad incwm ffurfiol.

Mae Ffigur 1 yn dangos nifer y bobl a gymerodd ran mewn grwpiau ffocws neu gyfweiliadau ar ôl bodloni'r meini prawf sgrinio. Roedd yr ymchwil yn golygu bod modd cyflwyno sampl ansoddol cadarn, amrywiol a chytbwys. Ni chafodd preswylwyr a oedd wedi'i eithrio'n llwyr rhag talu'r dreth gyngor eu recriwtio i'r ymchwil gan nad oeddent yn rhyngweithio'n barhaus â biliau, taliadau na chyfathrebiadau. Fodd bynnag, cafodd cyfranogwyr a oedd wedi elwa o Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor eu cynnwys, gan eu bod yn parhau i gael biliau a gohebiaeth, a gall y cymorth y maent yn ei dderbyn amrywio ar sail amgylchiadau.

**Ffigur 1: Canlyniadau recriwtio
(N = 249)**



Disgrifiad o Ffigur 1: Erbyn diwedd y gwaith maes, roedd 249 o bobl wedi mynegi diddordeb mewn cymryd rhan. Ar ôl sgrinio, roedd 97 yn bodloni'r meini prawf cymhwysedd a chymerodd 60 ran mewn grwpiau ffocws neu gyfweiliadau.

Roedd dangosfyrddau byw yn tracio:

- niferoedd a recriwtiwyd ac a gwblhawyd yn ôl grŵp poblogaeth blaenoriaethol
- nodweddion demograffig (fel oedran, rhyw ac ardal (trefol neu wledig))
- anghenion iaith a mynediad

Roedd hyn yn caniatáu addasiadau amser real i sicrhau sampl amrywiol a chytbwys, gan gynnwys cynrychiolaeth ar draws y grwpiau poblogaeth blaenoriaethol.

2.2.1. Proffil y cyfranogwyr

Cymerodd cyfanswm o 60 o gyfranogwyr ran yn yr ymchwil. Roedd y rhain yn cynnwys pobl o aelwydydd incwm isel, cymunedau lleiafrifoedd ethnig ac aelwydydd anabl, gan adlewyrchu grwpiau a allai wynebu heriau gwahanol wrth rhyngweithio â'r dreth gyngor. Gall y rhwystrau hyn gynnwys y gallu i dalu, anghenion cyfathrebu neu iaith, gofynion hygyrchedd, allgáu digidol a rhyngweithio â phrosesau cymorth neu orfodi. Mae'r proffil isod yn crynhoi nodweddion cyfranogwyr ar sail y wybodaeth a gasglwyd wrth recriwtio.

Gan mai astudiaeth ansoddol yw hon sy'n targedu grwpiau penodol, ni fwriedir i'r sampl fod yn gynrychioliadol o boblogaeth ehangach Cymru. Mae'r proffil yn rhoi cyd-destun i'r canfyddiadau ac ni ddylid ei ddehongli fel un sy'n ystadegol gadarn.

Mae Tablau 1 i 5 yn dangos dadansoddiad o gyfranogwyr yn ôl grŵp, rhanbarth, rhyw, oedran ac ardal. Efallai na fydd y canrannau a ddyfynnir yn y tablau yn gwneud cyfanswm o 100% oherwydd talgrynnu.

**Tabl 1: Grwpiau blaenoriaethol
(N = 60)**

Cynulleidfa ^[troednodyn 1]	Nifer y cyfranogwyr	Canran
Aelwydydd incwm isel	23	38%
Cymunedau lleiafrifoedd ethnig	24	40%
Aelwydydd anabl	28	47%

**Tabl 2: Cyfranogwyr yn ôl rhanbarth
(N = 60)**

Rhanbarth yng Nghymru ^[troednodyn 2]	Nifer y cyfranogwyr	Canran
Gogledd	14	23%
Canolbarth	11	18%
De	20	33%
Gorllewin	15	25%

**Tabl 3: Cyfranogwyr yn ôl rhyw
(N = 60)**

Rhyw	Nifer y cyfranogwyr	Canran
Gwrywaidd	22	37%
Benywaidd	38	63%

**Tabl 4: Cyfranogwyr yn ôl grŵp oedran
(N = 60)**

Grŵp oedran	Nifer y cyfranogwyr	Canran
18–24 ^[troednodyn 3]	0	0%
25–34	12	20%
35–44	14	23%
45–54	13	22%
55–64	8	13%
65–74	6	10%
75 neu'n hŷn	7	12%

Troednodiadau

[1] Gallai cyfranogwyr uniaethu â mwy nag un grŵp, felly nid yw canrannau'n gwneud cyfanswm o 100%.

[2] Diffiniadau rhanbarthol a ddefnyddir yn yr adroddiad hwn:

Gogledd Cymru: Ynys Môn, Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Gwynedd, Wrecsam
 Canolbarth Cymru: Ceredigion, Powys
 Gorllewin Cymru: Sir Gaerfyrddin, Castell-nedd Port Talbot, Sir Benfro, Abertawe
 De Cymru: Blaenau Gwent, Pen-y-bont ar Ogwr, Caerffili, Caerdydd, Merthyr Tudful, Sir Fynwy, Casnewydd, Rhondda Cynon Taf, Torfaen, Bro Morgannwg.

[3] Ni chymerodd unrhyw gyfranogwyr rhwng 18 a 24 oed ran yn yr ymchwil.

**Tabl 5: Cyfranogwyr yn ôl ardal wledig neu drefol
(N = 60)**

Ardal	Nifer y cyfranogwyr	Canran
Gwledig	14	23%
Trefol	46	77%


Fel rhan o'r dull samplu, roedd yr holiadur sgrinio yn cynnwys cwestiynau a gynlluniwyd i sicrhau ystod eang o brofiadau bywyd o'r dreth gyngor. Yn benodol, gofynnwyd i'r cyfranogwyr am y canlynol:

- a oeddent erioed wedi cael trafferth talu eu treth gyngor
- a ydynt wedi cael unrhyw ddisgownt neu ostyngiad
- pa mor hyderus yr oeddynt wrth ddeall a delio â materion yn ymwneud â'r dreth gyngor

Cafodd yr ymatebion i'r cwestiynau hyn eu monitro drwy ddangosfwrdd recriwtio a'u defnyddio i lywio recriwtio parhaus, ochr yn ochr â nodweddion eraill fel rhyw, oedran, ardal (trefol neu wledig), dewis iaith, ethnigrwydd a lefel amddifadedd. Roedd hyn yn helpu i sicrhau bod y sampl derfynol yn cynnwys pobl â lefelau amrywiol o bwysau ariannol, ymwybyddiaeth o gymorth, a hyder wrth ddelio â'r dreth gyngor.


Mae Ffigurau 2 i 4 yn crynhoi proffil y cyfranogwyr mewn perthynas â'r mesurau sgrinio allweddol hyn.

**Ffigur 2: Ydych chi erioed wedi cael trafferth talu eich bil treth gyngor?
(N = 60)**




Disgrifiad o Ffigur 2: Dywedodd dros ddau o bob pum cyfranogwr (45%) eu bod wedi cael trafferth talu eu treth gyngor ar ryw adeg. Roedd hyn yn cynnwys 28% a gafodd anawsterau yn ystod y 12 mis diwethaf ac 17% a oedd wedi cael anawsterau dros 12 mis yn ôl. Dywedodd 38% nad oeddent wedi cael anawsterau, ac roedd 17% yn ansicr neu roedd yn well ganddynt beidio â dweud.

Ffigur 3: A yw eich bil treth gyngor wedi'i leihau neu ei ostwng?
(N = 60)



Disgrifiad o Ffigur 3: Dywedodd tua hanner y cyfranogwyr, 46%, fod eu bil treth gyngor yn cael ei leihau neu ei ostwng, yn fwyaf cyffredin drwy'r disgownt person sengl neu'r cymorth sy'n gysylltiedig ag incwm neu amgylchiadau. Dywedodd cyfran debyg o'r cyfranogwyr, 47%, nad ydynt yn cael unrhyw ostyngiad, ac roedd rhai yn ansicr a oedd gostyngiad wedi'i gymhwyso. Mae hyn yn awgrymu rhywfaint o amrywiaeth mewn ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o gymorth treth gyngor ymysg cyfranogwyr.

Ffigur 4: Pa mor hyderus ydych chi'n teimlo ynghylch...?
(N = 60)



Disgrifiad o Ffigur 4: Roedd lefelau hyder yn eithaf tebyg ar draws y gwahanol agweddau ar y dreth gyngor a ddangoswyd. Yn gyffredinol, roedd tua hanner y cyfranogwyr yn weddol hyderus neu'n hyderus iawn o ran deall y dreth gyngor a delio â materion y dreth gyngor. Dywedodd y cyfranogwyr fod ganddynt ychydig mwy o hyder wrth ddelio â materion y dreth gyngor, o'i gymharu â hyder wrth ddeall y dreth gyngor.

2.3. Dadansoddi Data

Cafodd yr holl grwpiau ffocws a chyfweliadau eu recordio (gyda chaniatâd) a'u trawsgrifio. Defnyddiodd SRI ddull dadansoddi thematig i nodi patrymau, profiadau cyffredin a gwahaniaethau rhwng cyfranogwyr. Cynhaliwyd dadansoddiad ar y cyd i sicrhau cysondeb o ran codio a dehongli.

Roedd y dull hwn yn briodol oherwydd ei fod yn:

- galluogi archwiliad manwl o ganfyddiadau a phrofiadau bywyd
- caniatáu nodi themâu cylchol ac eithriadau
- cefnogi cymharu ar draws grwpiau demograffig a fformatau ymchwil

Mae'r ymchwilwyr wedi golygu'r dyfyniadau yn yr adroddiad hwn fel eu bod yn haws eu darllen. Dydy'r dyfyniadau ddim yn defnyddio enwau go iawn. Yn hytrach, rhoddir disgrifiad syml o'r unigolyn i ddiogelu ei hunaniaeth.

2.4. Cyfyngiadau

Fel astudiaeth ansoddol, mae'r canfyddiadau'n adlewyrchu barn y rhai a gymerodd ran ac ni ellir eu cyffredinoli i bawb sy'n talu'r dreth gyngor. Roedd y sampl wedi'i strwythuro i gynnwys amrywiaeth o brofiadau a nodweddion, ond nid yw'n cynrychioli'r boblogaeth gyffredinol.

Roedd y cyfranogwyr wedi dewis eu hunain ar gyfer yr ymchwil, ac roedd rhai nodweddion, gan gynnwys statws incwm isel, yn seiliedig ar wybodaeth hunangofnodedig a ddarparwyd yn ystod recriwtio yn hytrach na throthwyon incwm wedi'u dilysu. Gall hyn olygu bod profiadau'n adlewyrchu profiadau unigolion a oedd yn teimlo'n fwy abl neu frwdfrydig i gymryd rhan. Fodd bynnag, cafodd hyn ei liniaru drwy ddefnyddio cwestiynau sgrinio i sicrhau bod gan gyfranogwyr brofiad perthnasol a diweddar o'r dreth gyngor a'u bod yn bodloni'r meini prawf blaenoriaeth ar gyfer cynhwysiant.

Efallai na fydd canfyddiadau cyfranogwyr a'u gallu i gofio profiadau bob amser yn cyd-fynd â'r rheolau statudol sy'n ymwneud â'r dreth gyngor neu bolisi awdurdodau lleol neu Lywodraeth Cymru. Bwriad yr ymchwil yw deall profiadau bywyd, dealltwriaeth bresennol, a thynnu sylw at wahaniaethau a chamsyniadau. Roedd llawer o'r safbwyntiau a fynegwyd yn ymwneud â'r ffaith bod y dreth gyngor yn cael ei hystyried yn dâl gwasanaeth neu'n 'bris' am wasanaethau a dderbyniwyd, yn hytrach na system drethiant gyffredinol i ariannu gwasanaethau lleol.

Rôl yr ymchwilydd oedd tynnu sylw at y safbwyntiau'n fanwl ac edrych ar draws grwpiau poblogaeth, yn hytrach na gwirio cywirdeb neu ddarparu gwybodaeth ffeithiol.

3. Canfyddiadau: Dealltwriaeth a chanfyddiadau cyffredinol

Roedd gan gyfranogwyr o leiaf rywffaint o ddealltwriaeth o'r dreth gyngor, ond roedd lefel yr ymwybyddiaeth fanwl yn amrywio - manylir ar hyn isod. Lle bo'n briodol, tynnwyd sylw at unrhyw wahaniaethau yn ôl demograffeg neu fath o grŵp.

3.1. Pa dri gair?

Er mwyn cael dealltwriaeth gynnar o ganfyddiadau o'r dreth gyngor, gofynnwyd i'r cyfranogwyr ei disgrifio mewn tri gair i ddechrau. Roedd y thema gryfaf yn canolbwyntio ar gost y bil, a'r gair cyntaf i gael ei grybwyll fel arfer oedd "drud".

Roedd geiriau eraill yn canolbwyntio ar effaith y dreth gyngor ar gyllid aelwydydd: "achosi straen", "llethol" neu "gost afrealistig".

Er bod rhai o'r cyfranogwyr wedi dweud "amwynderau", "gwneud rhywfaint o ddaioni" neu "talw am wasanaethau", roedd y geiriau a ddewiswyd yn fwy tebygol o gael effaith negyddol, fel "annheg", "heb gyfiawnhad", "twyll", "gwastraff arian" neu "gythraul angenrheidiol".

Soniwyd hefyd am "orfodol" ac "anochel", sy'n awgrymu canfyddiad o rwymedigaeth, ynghyd â "dryslud" a "chymhleth", sy'n awgrymu diffyg eglurder.

Roedd y geiriau hyn yn helpu i ysgogi trafodaeth ac roeddent yn aml yn cael eu defnyddio fel ysgogiad gan y cymedrolwr ar adegau drwy gydol y grwpiau ffocws a'r cyfweiliadau manwl.

3.2. Deall y dreth gyngor

Roedd gan y cyfranogwyr o leiaf rywffaint o ddealltwriaeth o'r dreth gyngor, gan wybod ei bod yn talu am wasanaethau ac amwynderau lleol. Ond roedd lefel yr ymwybyddiaeth fanwl yn amrywio'n sylweddol.

Roedd ymatebion cychwynnol i gwestiynau ynghylch ar gyfer beth y defnyddir y dreth gyngor yn tueddu i ganolbwyntio ar yr hyn y gallai pobl ei weld o'u cwrdd yn lleol neu ba wasanaethau roeddent yn eu defnyddio. Yn aml, casglu sbwriel ac ailgylchu oedd y peth cyntaf a grybwyllwyd gan gyfranogwyr, ynghyd â'u cyngor lleol a gwasanaeth yr heddlu. Roedd y rhan fwyaf o'r cyfranogwyr yn cytuno'n agored neu'n nodio pan grybwyllwyd y gwasanaethau hyn, gan awgrymu bod y rhain yn cael eu deall yn gyffredin.

Fel rhan o'r drafodaeth ynghylch lle mae arian y dreth gyngor yn cael ei wario, soniodd rhai cyfranogwyr hefyd am y canlynol:

- goleuadau stryd
- glanhau strydoedd
- cynnal a chadw strydoedd

- llyfrgelloedd
- ysgolion
- gofal cymdeithasol
- gofal iechyd
- pryd ar glud

Nid oedd cymaint yn gwybod - neu fel y canfuwyd, yn meddwl am - pwy sy'n pennu cyfraddau'r dreth gyngor. Nid oedd rhai erioed wedi meddwl am y peth o'r blaen, ond gan fod y bil wedi dod gan eu hawdurdod lleol, cymerasant mai dyna lle y pennwyd y dreth gyngor.

Roedd eraill yn credu y gallai cyngorau tref, y Senedd, Llywodraeth Cymru neu Lywodraeth y DU fod yn ymwneud â hynny, ond roeddent yn rhannu syniadau ac yn dyfalu, yn hytrach na theimlo'n hyderus yn eu hymatebion.

Ymysg rhai cyfranogwyr, roedd teimlad nad oedd pennu treth gyngor yn broses glir, gyda dryswch ynghylch sut mae pob bil yn cael ei bennu. Er bod rhai'n hyderus yn dweud ei fod yn seiliedig ar werth tai neu fand tai, nododd eraill ddiffyg dealltwriaeth ac eglurder.

“Ydy'r bil yn dibynnu ar faint neu bris y tŷ?”

“Mae fy nhŷ i ym mand E ac mae'r tŷ drws nesaf ym mand D - rydym bron yn union yr un fath. Yr unig wahaniaeth yw ystafell ymolchi ychwanegol.”

3.2.1. Gwahaniaeth yn ôl demograffeg neu grŵp

Roedd ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r dreth gyngor yn tueddu i fod yn is ymysg cyfranogwyr o gymunedau lleiafrifoedd ethnig, yn enwedig y rheini a oedd wedi cyrraedd y DU yn ddiweddar. I rai mudwyr, disgrifiodd cyfranogwyr sut y cawsant eu rhoi mewn cartrefi â bandiau treth gyngor uchel heb esboniad ymlaen llaw, gan eu gadael mewn sioc pan gyrhaeddodd y bil cyntaf ac yn ansicr sut roedd disgwyl iddynt ei dalu ar incwm isel.

“Pan fyddwch chi'n dod yma dydych chi ddim yn gwybod am y dreth gyngor... does neb yn esbonio i bobl beth ydyw.”

“Cafodd un dyn ei roi mewn tŷ lle mae'r dreth gyngor tua £3,000... dydy o ddim yn gallu ei fforddio.”

Tynnodd y cyfranogwyr hyn sylw at ddiffyg gwybodaeth glir ar yr adeg cyrraedd neu'r adeg tenantiaeth, a gyfrannodd at ddryswch ynghylch sut mae'r system yn gweithio a pha gymorth a allai fod ar gael.

3.3. Ffi orfodol

Roedd pawb a gymerodd ran yn yr ymchwiliad yn cydnabod y rhwymedigaeth i dalu a bod goblygiadau am beidio â thalu. Iddyn nhw, nid dewis yw talu.

Fel y disgrifir yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn, roedd rhai cyfranogwyr wedi bod mewn ôl-ddyledion o'r blaen, a dywedon nhw fod y profiad wedi eu hysgogi i flaenoriaethu'r bil misol cyn anghenion sylfaenol eraill fel bwyd neu wres.

“Os na fyddwch chi'n talu, byddan nhw'n mynd â chi i'r llys.”

Gan fod y dreth gyngor yn cael ei hystyried yn orfodol i'r rhan fwyaf o aelwydydd, dywedodd llawer o gyfranogwyr nad yw'n rhywbeth maen nhw'n meddwl amdano'n aml iawn. Maen nhw'n teimlo nad oes lle i drafod, nad oes unrhyw gystadleuydd yn cynnig bargaen well (e.e. yn wahanol i wasanaethau masnachol) a dim deialog dwyffordd ynghylch y tâl na phryd mae'n rhaid ei dalu.

Dywedodd llawer o'r cyfranogwyr eu bod yn talu drwy Ddebyd Uniongyrchol, a'i fod yn dod yn syth o'u banc ar ddechrau'r mis. Teimlai rhai cyfranogwyr fod popeth arall - ar wahân i'w rhent neu eu morgais - yn ail flaenoriaeth.

I'r rheini nad ydynt yn talu drwy Ddebyd Uniongyrchol, gall cydbwysu'r bil yng nghyllideb eu cartref fod yn anodd iawn ac mae'n creu heriau ychwanegol, fel y trafodir yn nes ymlaen yn yr adroddiad hwn.

3.4. Gwerth am arian?

Roedd cyfranogwyr yn aml yn gofyn cwestiynau ynghylch faint o werth am arian y mae'r dreth gyngor yn ei gynnig. Teimlai nifer fod y dreth yn rhy uchel ar gyfer ansawdd a chysondeb y gwasanaethau a dderbynnir, gan ddisgrifio materion gweladwy fel llifogydd, tyllau mewn ffyrdd, strydoedd budr a chasglu biniau'n anaml.

“Mae'n £185 y mis... ac edrychwch ar y sbwriel ar y strydoedd a'r ffyrdd mewn cyflwr gwael.”

“Nid yw fy ngwastraff bwyd wedi cael ei gasglu am dair wythnos yn olynol. Bob tro rwy'n gorfod cwyno, ac yna mae'n cael ei gasglu”.

Nododd rhai cyfranogwyr rwystredigaeth bod eu biliau treth gyngor yn cynyddu, ond roedd ganddynt ganfyddiad bod gwasanaethau'n cael eu cwtogi, yn “mynd yn waeth” neu'n diflannu'n gyfan gwbl. Yn benodol, soniwyd am gau llyfrgelloedd, lleihau casgliadau biniau ac ymatebion araf i ymholiadau i wasanaethau'r cyngor, ynghyd â materion yn ymwneud â chasglu gwastraff a sbwriel mewn mannau cyhoeddus.

“Rydyn ni'n talu mwy bob blwyddyn, ond rydyn ni'n cael llai.”

“Dydych chi ddim yn cael y gwerth am arian. Rydyn ni'n talu mwy, ond mae'r gwasanaethau'n dal i gael eu cwtogi.”

Codwyd y thema hon o werth am arian dro ar ôl tro gan gyfranogwyr, a oedd yn cwestiynu a oedd eu harian yn cael ei ddefnyddio'n effeithlon ac yn effeithiol.

“Petai'r cyngor yn gwneud y gwaith yn iawn y tro cyntaf, byddai'r costau'n is ac ni fyddai angen iddynt godi'r dreth gymaint.”

Er gwaethaf rhwystredigaethau, roedd cyfranogwyr yn cydnabod bod llawer o wasanaethau hanfodol yn dibynnu ar y dreth, ynghyd â chymorth i'r rheini yn eu cymunedau a allai fod ei angen fwyaf. (Gweler Adran 1.1)

3.5. Diffyg cydraddoldeb rhwng ardaloedd

Soniodd rhai cyfranogwyr, sydd wedi'u lleoli yng nghefn gwlad, am sut roeddent yn teimlo nad yw'r dreth gyngor yn cael ei dosbarthu'n deg. Yn eu hardaloedd, dywedasant nad oes ganddynt fynediad at yr holl wasanaethau y mae eu biliau'n cyfrannu atynt.

Soniwyd yn benodol am oleuadau stryd a chasgliadau biniau, ynghyd â chyflwr ffyrdd lleol.

Soniodd rhai hefyd am y pellter oddi wrth wasanaethau ac amwynderau fel llyfrgelloedd, canolfannau hamdden a chymorth wyneb yn wyneb, gyda rhai'n dweud nad oedd yr un ohonynt o fewn pellter a oedd yn eu gwneud yn hygyrch.

Roedd y cyfranwyr hyn yn cwestiynu pam y dylent orfod talu'r un gyfradd â phobl sy'n byw mewn trefi a dinasoedd gan eu bod yn teimlo nad yw eu lleoliad o fudd iddynt yn yr un ffordd.

“Mae'n rhaid i mi yrru 20 milltir i siarad â rhywun, neu fynd ar y bws, ond dim ond bws bob 2 awr sydd, sy'n ychwanegu at y straen.”

Roedd rhai cyfranogwyr yn teimlo bod ardaloedd tlotach neu ganol dinasoedd yn talu cyfraddau tebyg, ond yn cael gwasanaethau o ansawdd is, tra bod “ardaloedd cyfoethog” yn elwa o lai o droseddau ac yn cael eu cynnal a'u cadw'n well.

“Mewn ardaloedd cyfoethog mae'n rhatach nag yma.”

“Rydyn ni'n talu'r un faint ond mae ein strydoedd yn fudr - dydy hynny ddim yn deg.”

3.6. Diffyg eglurder ynghylch dosbarthiad a gwariant y dreth gyngor

Soniodd cyfranogwyr yn aml am ddiffyg dadansoddiad ar eu bil treth gyngor, sef y pwynt a ddefnyddir amlaf i gael gwybodaeth am y dreth.

Dywedodd rhai fod y swm blynyddol yn arfer cael ei ddadansoddi i ddangos faint o gyllideb a ddyrannwyd i bob gwasanaeth, ond roeddent wedi sylwi bod hyn wedi cael ei leihau i un llinell - y cyfanswm. O ganlyniad, mae ble mae'r arian yn mynd a sut mae'n cael ei wario yn rhywbeth y mae cyfranogwyr yn teimlo nad oes ganddynt lawer o wybodaeth amdano.

Roedd rhai cyfranogwyr yn teimlo eu bod wedi ymddieithrio rhag delio â'u bil treth gyngor. Gan deimlo ei fod yn orfodol ac nad yw'n agored i drafodaeth, ac nad yw cael gwybodaeth fanwl am ble mae'r arian yn mynd o fawr ddiddordeb, gan fod ganddynt yn aml bryderon a blaenoriaethau mwy a mwy uniongyrchol o ran yr aelwyd a bywyd.

I eraill, fodd bynnag, arweiniodd trafodaethau am y dreth gyngor at lawer o gwestiynau, gan gynnwys:

- I ble mae'r arian yn mynd?
- Ble mae'r atebolrwydd?
- A yw gwariant yn effeithlon?
- A gyflawnwyd targedau llynedd?

“Os yw'n cael ei ddefnyddio'n effeithlon, mae'n bwysig, ond rydych chi'n poeni pa mor effeithlon yw eich cyngor lleol pan fydd llawer o bethau o'i le yn yr ardal, rydych chi'n ei warafun, ond mae'n rhaid i chi ei dalu neu maen nhw'n dod ar eich ôl.”

“Dydyn ni ddim wir yn gwybod pwy sy'n penderfynu beth sy'n digwydd gyda'r arian.”

Soniodd rhai cyfranogwyr a oedd wedi craffu ar eu bil a'r wybodaeth a ddaeth gydag ef, weithiau fod gormod o jargon, ac nad oedd digon o iaith syml yn cael ei defnyddio. Gan ymhelaethu ar y disgrifiad “dryslyd” a grybwyllwyd yn ystod y drafodaeth 'pa dri gair...' yn y grwpiau, dywedodd un cyfranogwr ei bod wedi ceisio archwilio ei bil i weld i ble'r aeth yr arian, ond nad oedd yn glir.

3.7. Arian cyhoeddus angenrheidiol

Er eu bod yn teimlo'n rhwystredig oherwydd y gost, roedd cyfranogwyr yn cydnabod bod y dreth gyngor yn ffynhonnell angenrheidiol o refeniw i gynnal gwasanaethau lleol. Roeddent yn deall rhai o oblygiadau uniongyrchol peidio â chael yr arian cyhoeddus ar gyfer gwasanaethau fel casgliadau biniau, ysgolion a'r heddlu.

“Pe bai'n rhaid i mi fynd â'm sbwriel i'r domen bob wythnos, byddai'r car yn drewi... mae manteision iddo”

“Pe bai'n diflannu, byddai anhrefn. Ond mae angen iddo fod yn decach ac yn fwy eglur.”

Yr oedd gwerthfawrogiad hefyd i'r gwasanaethau llai gweladwy hynny, megis gofal cymdeithasol a phryd ar glud, a hebdo, y byddai'r rhai mwyaf agored i niwed yn eu cymunedau'n dioddef.

“Rwy'n talu'r dreth gyngor ar y ddealltwriaeth ei fod yn mynd i'r gwasanaethau sydd eu hangen ar bobl.”

3.8. Derbyn y bil yn ddifater

Er gwaethaf rhai cwestiynau am ddyluniad, swyddogaeth ac effeithlonrwydd y dreth gyngor, roedd rhywfaint o ddifaterwch o hyd ymysg llawer o'r cyfranogwyr yn yr ymchwil. Er mai dyma'r bil cartref mwyaf fel arfer ar ôl taliadau rhent neu forgais, roedd yn fil roedden nhw'n teimlo eu bod yn gwybod bod yn rhaid iddyn nhw ddod o hyd i'r arian ar ei gyfer ac nad oedden nhw'n gallu ei gwestiynu.

Oherwydd y rhwymedigaeth i dalu, a chyda phwysau ariannol a phwysau bywyd eraill o ddydd i ddydd, dywedodd llawer o gyfranogwyr nad yw'r dreth gyngor yn rhywbeth maen nhw'n meddwl amdano - ddim yn aml beth bynnag.

“Rydyn ni i gyd wedi arfer â'r peth, dydw i ddim yn gwybod a oes ffordd arall o dalu am y gwasanaethau hyn.” Dydyn ni ddim yn ei gwestiynu, mae'n bodoli.”

“Mae'n rhywbeth o'r brig i lawr. Mae'n rhywbeth sy'n digwydd i chi, nid oes posibil gwybod i ble mae'r arian yn mynd, byddai'n rhaid i chi gyflwyno [cais Rhyddid Gwybodaeth] neu rywbeth.”

Ond mae profiad cyfranogwyr o'r dreth gyngor wedi bod yn amrywiol, gyda rhai profiadau cadarnhaol yng nghanol amrywiaeth o heriau, rhwystrau a phwysau, fel yr archwilir yn y penodau canlynol.

4. Canfyddiadau: Effaith y dreth gyngor

Yn ystod y grwpiau ffocws a'r cyfweiliadau, bu'r cyfranogwyr yn siarad am eu profiad o ddelio â'r dreth gyngor, a'i heffaith ar eu cyllid ac ar eu hiechyd meddwl a'u lles.

4.1. Talu'r bil

Dywedodd y rhan fwyaf o'r cyfranogwyr eu bod yn talu eu treth gyngor drwy Ddebyd Uniongyrchol. I'r rhan fwyaf o'r cyfranogwyr hyn, roedd sefydlu'r taliadau misol yn broses syml, ond nid oedd y profiad hwnnw'n un cyffredinol.

“Byddech chi'n meddwl y byddai Debyd Uniongyrchol yn ddidrafferth, ond fe wnaethon ni gofrestru ar ei gyfer, ond ni ddigwyddodd dim am 2 fis. Fe wnaethon ni ffonio, anfon e-bost, methu cael gafael ar neb, yna fe wnaethon nhw ysgrifennu atom a dweud bod oedi ac y byddai addasiad yn ystod y flwyddyn.”

Dywedodd cyfranogwr arall fod yn rhaid iddo ffonio ei awdurdod lleol bob mis oherwydd problemau gyda swm y Debyd Uniongyrchol, sy'n amrywio ychydig i fyny neu i lawr ar adegau bilio yn ystod y flwyddyn, ac mae'n cael llythyr yn dweud bod angen ei gywiro bob tro, a allai fod o ganlyniad i ryngweithio rhwng Credyd Cynhwysol, yr oriau sy'n cael eu gweithio a'r Cynllun Gostyngiadau.^[troednodyn 4]

Dywedodd cwpl o gyfranogwyr ei bod yn well ganddynt dalu ar-lein bob mis, a oedd yn rhoi mwy o reolaeth iddynt ar ba bryd y byddai'r arian yn mynd allan o'u cyfrif. Dywedodd rhai cyfranogwyr fod eu treth gyngor yn cael ei thynnu o'u cyflog neu eu budd-daliadau cyn iddo fynd i'w cyfrif ^[troednodyn 5], ac o ganlyniad, nid oeddent yn siŵr faint roeddent yn ei dalu ac nid oedd ganddynt unrhyw reolaeth ar daliadau.

Roedd Debyd Uniongyrchol yn gyffredin, gyda llawer o gyfranogwyr yn dweud bod yr arian yn diflannu o'u cyfrif cyn gynted ag y cânt eu talu, felly nid ydynt byth yn ei weld. Er mai dyma oedd y dull a oedd yn cael ei ffafrio gan rai, dywedodd cwpl eu bod yn teimlo nad oedd yn rhoi unrhyw hyblygrwydd i'r taliadau.

Cafodd taliadau rhai cyfranogwyr eu rhannu dros 12 mis. Roedd costau blynyddol eraill wedi'u rhannu dros 10 mis. Disgrifiodd cyfranogwyr elfennau cadarnhaol i'r ddau ddull. Mae rhannu'r bil dros 12 mis yn golygu bod pob cyfran fisol yn creu ychydig yn llai o faich o fis i fis ac yn helpu gyda chyllidebu, ond roedd yn well gan rai gael 2 fis yn rhydd o'r gwariant, a oedd fel arfer yn digwydd dros y Nadolig neu'n gynnwys yn y flwyddyn newydd.

Dywedodd un cyfranogwr fod ei fil wedi cael ei newid o raniad 10 i 12 mis, heb unrhyw ymgynghoriad a'i fod yn teimlo'n rhwystredig oherwydd y diffyg cyfathrebu. Dywedodd un

Troednodiadau

[4] [Disgownt a gostyngiad Treth Gyngor](#).

[5] Mae [protocol y dreth gyngor ar gyfer Cymru](#) yn rhoi arweiniad i awdurdodau lleol ac asiantaethau gorfodi ynghylch.

arall fod eu bil wedi cael ei newid o 12 mis i 10 mis, a oedd yn “frawychus” fel unig ddarparwr incwm teulu ifanc.

“Fi yw'r unig un sy'n gweithio, felly i mi pan wnaethon nhw ei newid o 12 i 10 mis roedd yn codi ofn arna i ychydig... alla i ddim hawlio unrhyw gyllid a does dim modd i fy ngwraig hawlio oherwydd fy mod i'n gweithio.”

Fodd bynnag, roedd talu drwy Ddebyd Uniongyrchol yn tueddu i fod yn ffordd haws o gyllidebu i rai ar gyflog sefydlog, yn ôl rhai cyfranogwyr. Dywedodd y rheini sy'n cael eu talu'n wythnosol neu ar sail ad hoc y gallai dod o hyd i'r arian ar yr adeg iawn achosi straen mawr gan achosi ôl-ddyledion weithiau.

“Roeddwn i'n arfer cael fy nhalu bob wythnos, felly roedd hynny'n anodd ei gyllidebu. Roedd gen i ôl-ddyledion cwpl o weithiau ac fe wnaethon nhw anfon y llythyrau. Nawr fy mod i'n cael fy nhalu'n fisol, mae'n haws cyllidebu.”

“Pan gefais fy nhalu'n wythnosol, roeddwn i ar ei hôl hi cwpl o weithiau, roedd hi'n anodd cadw ar ben hynny.”

Yn ogystal, gall amseriad Debyd Uniongyrchol gael effaith enfawr ar allu aelwyd i gyllidebu. Os daw'r arian allan ar ddechrau'r mis - neu pan gânt eu talu - mae'n haws ymdopi ond mae gorfod dal gafael ar arian yn eu cyfrif ar gyfer Debyd Uniongyrchol sydd i fod i ddod allan yn ddiweddarach yn y mis yn gallu bod yn her go iawn.

“Mae fy un i yn mynd allan hanner ffordd drwy'r mis...yn ddelfrydol hoffwn iddo ddigwydd ar y diwrnod cyflog.”

“Mae fy un i ar y 15fed, ar hap yn llwyr, ond rydych yn gwybod bod rhaid i chi ei dalu tua'r adeg honno.”

Soniodd rhai cyfranogwyr am eu trafferthion o ran cydbwyso eu hincwm a'u gwariant, gan ddibynnu ar Fudd-dal Plant neu gymorth ariannol arall i glirio cyn eu dyddiad Debyd Uniongyrchol.

“Fel arfer, byddaf yn cael cynhaliaeth plant ychydig ddyddiau cyn hynny, felly, fel arfer, byddaf yn defnyddio hynny i dalu'r dreth gyngor.”

Roedd yn ymddangos nad oedd rhai cyfranogwyr yn ymwybodol o ddewisiadau talu yn eu hardal leol, neu yr hoffent weld newidiadau'n cael eu gwneud i ganiatáu iddynt gael rhywfaint o ddewis a rheolaeth ar eu dyddiad talu.

4.2. Effaith ar gyllideb y cartref

Roedd fforddiadwyedd yn thema amlwg drwy'r ymchwil, gyda llawer o drafod am faint y bil a'r effaith ar y cartref. Disgrifiwyd y dreth gyngor yn eang fel pwysau ariannol sylweddol, ond roedd yn anodd gwahanu'r gost honno oddi wrth brisiau cynyddol rhent, ynni, bwyd a biliau eraill.

“Dim ond un o ormod o bethau sy'n mynd i fyny yw e.”

Disgrifiwyd y dreth gyngor fel un o feichiau ariannol mwyaf cyfranogwyr, ac yn ogystal â'r cynnydd ehangach mewn costau byw, mae'n rhoi pwysau ar gyllidebau. Mae cael llai o incwm gwario yn golygu llai o arian ar gyfer gwyliau neu bethau bach neis i rai cyfranogwyr, nad ydynt bellach yn mynd i'r sinema, yn gyrru'r car yn bell neu'n bwyta allan mewn caffis.

“Beth bynnag sy'n weddill ar ôl y dreth gyngor a thrydan yw'r cyfan sydd gennych chi - does dim byd ar gyfer gwyliau na phleserau.”

“Rydych chi'n dal ati i fyw tan y mis nesaf.”

“Rydych chi'n talu'r dreth gyngor, yna nwy, trydan, dŵr ac mae'n ddiddiwedd.” Mae'n teimlo fel gweithio i aros yn llonydd.”

Ond i eraill, mae'r effaith yn fwy difrifol. Gall y costau uwch hynny olygu dewis rhwng talu biliau, gwresogi eu cartref neu brynu bwyd. Weithiau, nid yw'r arian yno, felly mae'n cael ei fenthycu gan deulu neu ffrindiau.

“Pan nad oes neb yn y cartref yn ennill cyflog a'ch bod yn derbyn budd-daliadau, mae'n anodd iawn. Mae'n frawychus. Sawl gwaith mae'n rhaid i chi ddewis bwyta neu ei dalu. Rydw i wedi cael trafferth gyda methu ennill digon i fwyta a thalu biliau, rydw i wedi gorfod mynd i fanciau bwyd, sy'n codi cywilydd arna i.”

“Os nad ydw i'n talu £150 am y dreth gyngor, gallaf brynu dillad ar gyfer fy mab neu beiriant golchi dillad - ond mae'n rhaid i mi dalu.”

“Pan fydd y bil yn codi £50 neu £60, rwy'n teimlo'n euog yn gofyn i'm merched am arian...rydych chi'n jyglo chwe phêl a dydych chi ddim yn gwybod pa un i'w gollwng.”

Er bod “gollwng y bêl” mewn perthynas â'r dreth gyngor yn rhywbeth y mae cyfranogwyr yn gwneud ymdrechion cryf i'w osgoi, mae cwpl o gyfranogwyr yn dweud bod yn rhaid iddynt wneud dewisiadau anodd a blaenoriaethu biliau neu gostau eraill nes iddynt gael “llythyr coch a chnoc ar y drws”. Ond i'r rhan fwyaf, mae canlyniadau peidio â thalu eu bil yn ffactor ysgogi enfawr ac o ganlyniad, mae'n flaenoriaeth sefydlog.

“Dydw i ddim eisiau bod mewn dyled...mae ofn yr anhysbys yn hynny o beth.”

“Rydych chi'n ei dalu er eich bod chi'n brin o arian oherwydd eich bod chi'n ofni peidio â gwneud hynny.”

Er bod y rheoliadau sy'n dileu dedfrydau o garchar am beidio â thalu'r dreth gyngor wedi dod i rym yng Nghymru yn 2019, roedd yn ddiddorol nodi bod canfyddiad o hyd ymysg rhai cyfranogwyr y gallai peidio â thalu eu bil arwain at garchar o hyd.

“Gallwch fynd i'r carchar os na allwch chi dalu eich treth gyngor, felly i mi mae'n rhaid i hynny fod yn flaenoriaeth. Dydw i ddim yn gwybod pam mae ganddyn nhw'r pŵer hwnnw, does gan yr un bil arall y pŵer hwnnw i fynd â chi i'r llys a'ch rhoi chi yn y carchar ond mae gan y dreth gyngor am ryw reswm.”

4.3. Effaith ariannol

Roedd cyfweiliadau manwl yn benodol yn tynnu sylw at sut roedd rhai aelwydydd yn byw “o fis i fis”, gyda chyfranogwyr yn disgrifio mynd i fanciau bwyd, benthyca gan ffrindiau neu deulu neu gymryd benthyciadau bach dim ond i gadw i fyny â'r dreth gyngor ochr yn ochr â hanfodion eraill.

I rai cyfranogwyr, roedd yr ofn hwn yn deillio o brofiad uniongyrchol o fod mewn ôl-ddyledion. Mae rhai cyfranogwyr wedi canfod eu hunain yn y sefyllfa hon o'r blaen ac yn aml yn disgrifio sut roedd y profiad yn gwneud iddynt deimlo'n “ofnus” neu “dan fygythiad”.

Gall y profiadau hyn arwain at lefelau uchel o straen, panig ac ofn i rai cyfranogwyr, sy'n gorfod dewis rhwng hanfodion bywyd a thalu eu biliau, gan gynnwys y dreth gyngor.

Mae yna ganfyddiadau ychwanegol drwy'r adroddiad, lle mae cyfathrebu a mynediad at gymorth yn cael eu trafod, ond isod ceir rhai enghreifftiau o brofiadau cyfranogwyr yn eu geiriau eu hunain.

“Fe wnes i fethu talu'r dreth gyngor am ychydig fisoedd. Anfonwyd llythyr bygythiol ataf, llythyr llys, a bu'n rhaid i mi ddod i gytundeb gyda'r cyngor i dalu neu fynd i'r llys. Cymerodd 8 wythnos i'w sortio. Ar y pryd, roeddwn i'n ei chael hi'n anodd iawn fel arfer talu'r dreth gyngor ac £80 ar ben hynny nes iddi gael ei thalu. Roedd yn erchyll, pan welais lythyr swyddogol gan y llys, roeddwn mewn panig ac yn meddwl y byddwn i'n cael Dyfarniad Llys Sirol gan y llys neu'n mynd i'r carchar. Rhoddais flaenoriaeth i hynny dros roi prydau bwyd ar y bwrdd, tanwydd yn y car, dillad. Roedd yn straen enfawr. Rydw i'n ei dalu nawr os oes gen i lawer o arian ai peidio, oherwydd dydw i ddim eisiau cael y straen hwnnw eto. Roedd y llythyr cychwynnol yn dweud bod yn rhaid i mi dalu erbyn dyddiad penodol, a doeddwn i ddim yn gallu gwneud hynny. Doeddwn i ddim yn gallu cael gafael arnyn nhw dros y ffôn o gwbl, yna cefais lythyr gan Lys Ynadon. Fe wnes i anfon e-bost at y cyngor ac fe wnaethon nhw ddweud faint y byddai angen i mi ei glirio o fewn y flwyddyn - bod yn rhaid iddo fod o fewn blwyddyn. Mae'r iaith teimlo'n fygythiol iawn, fel petaech chi wedi gwneud rhywbeth anghyfreithlon drwy beidio â thalu, fel petai gan yr heddlu. Nawr, y dreth gyngor yw fy mlaenoriaeth ochr yn ochr â'm rhent.”

“Fe ddywedon nhw wrthai am dalu'r swm yn llawn ar unwaith. Roedd rhaid i mi egluro, ‘Os byddaf yn talu hynny ni fyddaf yn gallu bwyta.’ Bu'n rhaid i mi bledio cyn i rywun gynnig cynllun talu o'r diwedd.” [troednodyn 6]

Troednodiadau

[6] Bydd deddfwriaeth a wnaed gan Lywodraeth Cymru yn 2025 yn dod i rym yn 2026, gan newid y rhwymedigaeth ariannol. O fis Ebrill 2026 ymlaen, pan fydd rhandaliad yn cael ei fethu, bydd gan aelwyd o leiaf 63 diwrnod cyn iddo ddod yn atebol am falans blynyddol y bil.

Ynghyd â'r baich ariannol a ddisgrifir yn y dyfyniadau blaenorol, roedd cyfranogwyr yn y grwpiau ffocws a'r cyfweiliadau manwl yn aml yn siarad am straen ac effaith emosiynol.

Bydd yr effeithiau hyn yn cael eu harchwilio'n fanylach yn yr adrannau canlynol, sy'n edrych ar brofiad cyfranogwyr sydd wedi mynd i ddyled neu sydd wedi profi newid mewn amgylchiadau, ynghyd â phrofiadau wrth gael gafael ar gymorth a chynghor, ynghyd â materion eraill.

5. Canfyddiadau: Cyfathrebu, ymholiadau a chwynion

Mae llawer o gyfranogwyr wedi cael rhywfaint o brofiad o gyfathrebu ynghylch y dreth gyngor ar wahân i dderbyn eu bil blynyddol, gan gynnwys:

- derbyn llythyr am ôl-ddyledion
- derbyn llythyr am faterion bilio
- cael gafael ar wybodaeth ar wefan eu hawdurdod lleol i gael cyngor neu gymorth
- ffonio'r awdurdod lleol am gyngor neu gymorth
- cael mynediad at ganolfannau cymorth lleol i gael cyngor, cefnogaeth a gwybodaeth
- ffonio neu fynd i Ganolfan Cyngor ar Bopeth i gael cyngor neu gefnogaeth

Mae gwybodaeth, dealltwriaeth a phrofiad yn aml yn amrywio yn ôl cyfranogwr, ond mae rhai themâu cyffredin yn bodoli drwy ganfyddiadau'r ymchwil sy'n cael eu harchwilio drwy'r gwahanol fathau o gyfathrebu a chymorth sydd ar gael.

5.1. Biliau post, llythyrau ac iaith

5.1.1. Bil blynyddol a diwygiadau

Nid yw cyfranogwyr bob amser yn astudio eu bil blynyddol - maen nhw'n poeni mwy am y cyfanswm maen nhw'n ei wynebu'r flwyddyn honno - ond pan fyddan nhw'n gwneud hynny, maen nhw'n aml yn disgrifio diffyg eglurder a diffyg tryloywder ynghylch ble mae'r arian yn mynd.

Soniodd y rhai sy'n edrych drwy'r llythyr a'r pecyn sy'n dod gydag ef hefyd am y canlynol:

- mae gormod o wybodaeth i ddarllen drwyddi
- pam mae angen iddi fod yn ddwyieithog os wyf wedi nodi fy newis iaith
- mae rhywfaint o'r iaith yn gymhleth neu'n aneglur
- maen nhw wedi gwneud pethau'n rhy gymhleth
- maen nhw wedi'i symleiddio mewn ffordd blentynnaidd

Dywedodd cwpl o gyfranogwyr fod yr ysgrifen ar y bil blynyddol yn rhy fach, gan wneud y deunyddiau'n anodd eu darllen.

“Mae'r ysgrifen yn fach iawn, ac maen nhw'n cuddio pa fand rydych chi ynddo hanner ffordd i lawr y dudalen.”

Mae cyfranogwyr sydd wedi cael llythyrau addasu yn aml yn dweud eu bod yn ddryslyd ac yn anghyson, yn enwedig pan fydd symiau wedi cael eu newid neu os bydd mwy nag un llythyr yn cyrraedd yn gyflym ar ôl ei gilydd.

“Maen nhw'n anfon llawer o lythyrau am fân newidiadau - dydych chi ddim yn gwybod pa un sy'n iawn.”

5.1.2. Iaith mewn llythyrau rhybuddio

Disgrifiodd y rhai a oedd wedi syrthio ar ei hôl hi straen sylweddol a diffyg empathi o'r llythyr hysbysu cyntaf. Roedd y cyfranogwyr a'u derbyniodd yn cofio eu bod yn goch neu ar bapur pinc, gyda naws 'ymosodol' neu 'fygythiol'.

Yn ôl y cyfranogwyr, mae'r llythyrau hyn yn dwysáu sefyllfa sydd eisoes yn achosi straen, yn enwedig pan fyddant yn cynnwys y bygythiad o achos llys.

Weithiau, mae mynd i ôl-ddyledion wedi digwydd oherwydd amryfusedd cyfranogwyr, a oedd wedi talu eu bil yn brydlon am flynyddoedd, ond a oedd wedi anghofio un rhandaliad. Yn yr achosion hyn, dywed y cyfranogwyr fod y ffordd yr aethpwyd ati i oruchwyllo wedi bod yn llawdrwm ac yn ddiangen.

I gyfranogwyr eraill a oedd naill ai'n mynd drwy gyfnod arbennig o anodd - fel colli swydd, profedigaeth neu straen ariannol - roeddent yn dweud bod y llythyr wedi cael ei ddanfôn mewn ffordd a oedd yn cael effaith negyddol ar eu hiechyd meddwl.

“Achosodd straen, pryder, iselder. Dydyn nhw ddim yn poeni am eich sefyllfa - mae nhw ond eisïau'r arian.”

“Y llythyr pinc... mae'r cyfan yn 'llys', a 'talwch nawr' - brawychus iawn.”

Roedd cyfranogwyr yn aml yn beirniadu naws y llythyrau ôl-ddyledion, gan awgrymu y byddai nodyn atgoffa mwy meddal yn fwy priodol. Dywedodd rhai y byddai'n well ganddynt iaith a oedd yn gydymdeimladol, gan gyfeirio at gymorth a chynghor, naill ai yn y cynghor lleol neu mewn sefydliadau annibynnol fel Cynghor ar Bopeth.

“Cymryd y gallai rhywbeth fod wedi mynd o'i le, nid eich bod yn osgoi talu.”

5.1.3. Cymariaethau â chwmnïau neu sefydliadau eraill

Yn aml, mewn grwpiau a chyfweliadau, roedd cyfranogwyr yn cymharu â sut mae cwmnïau preifat a chyfleustodau'n cyfathrebu os ydynt wedi mynd ar ei hôl hi gyda'u taliadau, o'i gymharu â gwasanaethau treth ar gyfer llywodraeth leol.

Wrth sôn am eu dyledion, roedd yn gyffredin i gyfranogwyr mewn grwpiau ffocws a chyfweliadau ddisgrifio'r gwahaniaethau yn y dull gweithredu rhwng cynghorau lleol sy'n casglu ôl-ddyledion treth gyngor a dyledion sy'n cael eu casglu gan gwmnïau preifat.

Ar yr adegau hynny, nid oedd y cyfranogwyr yn gwahaniaethu rhwng beth oedd sail y dyledion - ar wahân i'w heffaith ymddangosiadol o beidio â thalu eu treth gyngor - ond yn hytrach sut roeddent yn teimlo pan gawsant ohebiaeth am y dyledion hynny. Disgrifiodd y cyfranogwyr eu hemosiynau ynghylch bod mewn dyled, eu trafferthion ariannol, a'r effaith ar

eu lles meddyliol a bygythiad achos llys, yn hytrach na meddwl am y gwahaniaeth rhwng y dreth gyngor a biliau eraill.

Dywedodd cyfranogwyr a oedd â phrofiad o fod ar ei hôl hi o ran taliadau neu geisio cymorth ar ôl newid mewn amgylchiadau fod eu profiad o sefydliadau eraill yn fwy cefnogol a chydymdeimladol, o'i gymharu â'r dull a fabwysiadwyd gan eu cyngor lleol pan oeddent wedi cael problemau gyda thalu eu treth gyngor.

“Roedd fy mil dŵr yn enfawr, ac roedden nhw mor barod i helpu - roedden nhw wedi ei wneud yn fforddiadwy.”

“Mae cwmnïau morgeisi'n rhoi gwyliau talu - pam na all cynghorau?”

“Roedd gen i fil dŵr sylweddol ar ôl peidio â thalu, wnes i ddim agor llythyrau am oesoedd. Ond fe ges i brofiad gwell gyda nhw, roedden nhw'n ei wneud yn fforddiadwy ac yn gydymdeimladol, gan daenu'r gwahaniaeth dros y misoedd dilynol.”

Ni thrafododd y cyfranogwyr unrhyw wahaniaeth yma rhwng treth gyngor sy'n ariannu gwasanaethau cyhoeddus diffiniedig, a biliau eraill sy'n talu am ddefnydd parhaus yr aelwyd (e.e. dŵr, morgais).

5.1.4. Gwahaniaeth yn ôl grŵp demograffig

Dywedodd rhai cyfranogwyr o grwpiau lleiafrifoedd ethnig, oherwydd nad Cymraeg na Saesneg yw eu hiaith gyntaf, eu bod weithiau'n gallu cael trafferth gyda llythyrau am y dreth gyngor. Yn yr achosion hyn, mae angen help arnynt gan ffrindiau a theulu i ddehongli'r cyfathrebu.

“Mae'r iaith yn rhy anodd - dydyn ni ddim yn deall beth maen nhw ei eisiau.”

5.2. Gwybodaeth a chymorth ar wefan yr awdurdod lleol

Dywedodd rhai cyfranogwyr eu bod wedi bod ar wefan eu hawdurdod lleol yn chwilio am wybodaeth am gymorth gyda'r dreth gyngor, gyda chanlyniadau cymysg.

Dywedodd cwpl o gyfranogwyr fod gwefan eu cyngor lleol wedi bod yn glir ar ôl cael mynediad ynghylch talu eu bil treth gyngor, neu fod holiadur byr am ostyngiadau posibl wedi bod yn ddigon syml i'w ddefnyddio.

Dywedodd un cyfranogwr ei fod wedi defnyddio gwefan ei gyngor lleol i helpu i drefnu taliadau i'w rieni a dywedodd na fyddai ganddo syniad sut i wneud hynny ei hun a theimlai y dylid ystyried pobl nad ydynt yn deall technoleg.

Ond dywedodd cyfranogwyr eraill a oedd wedi ceisio defnyddio gwefan eu hawdurdod lleol i gael cymorth, arweiniad neu wybodaeth am eu treth gyngor, nad oedd yn brofiad syml, gan

droi mewn cylchoedd yn aml, dolenni wedi torri, neu nad oeddent yn gallu dod o hyd i'r hyn roeddent yn chwilio amdano.

“Rwy'n gyn beiriannydd meddalwedd ac yn gwrthod defnyddio gwefan y cyngor, mae'n ofnadwy. Rydw i'n gwneud popeth ar-lein, rydw i wrth fy modd, ond dydy swm y dolenni sydd wedi torri a dolenni cylchol ddim werth yr egni.”

“Mae'r wefan yn lefiathan ^[troednodyn 7]. Mae angen i rywun fynd drwy'r tudalennau i wneud yn siŵr eu bod yn gweithio. Swyddogaeth patrolio.”

Roedd eraill yn feirniadol o'r diffyg cyfeirio, gyda gwybodaeth ar y wefan yn dweud bod help ar gael, ond dim cyfeiriad pellach at yr help hwnnw.

Dywedodd un cyfranogwr nad oedd llenwi'r ffurflen ar-lein yn glir. Roedden nhw wedi mynd ar-lein i gael help ar ôl cael bil mawr am y dreth gyngor, ond roedden nhw'n dweud ei fod yn cynnwys llawer o flychau ticio i'w gwirio, ond roedd hi'n teimlo nad oedd yr holl flychau perthnasol yno - roedd yn rhaid iddyn nhw ffonio'r cyngor i roi gwybod iddyn nhw mai nhw oedd yr unig oedolyn yn y tŷ, ac nad oedden nhw'n gallu deall pam nad oedd opsiwn i wneud hynny ar-lein.

5.3. Ffonio'r awdurdod lleol

Dywedodd cyfranogwyr a oedd â phrofiad o ffonio eu hawdurdod lleol am y dreth gyngor eu bod fel arfer yn gwneud hynny ar adeg o straen, pan oeddent yn poeni am fforddio eu taliadau, oherwydd eu bod wedi cael llythyr ôl-ddyledion neu oherwydd newid mewn amgylchiadau, gan gynnwys profedigaethau neu golli swydd.

Yn gyffredin, dywedodd cyfranogwyr fod y galwadau ffôn a wnaethant yn ychwanegu at eu straen, gan deimlo bod y profiad yn rhwystredig ac yn cymryd llawer o amser.

Soniodd cyfranogwyr am eu rhwystredigaethau wrth lywio drwy'r systemau awtomataidd a'r amser mae'n ei gymryd i siarad â rhywun.

“Rydych chi'n troi mewn cylchoedd gyda botiaid - dydyn nhw ddim yn gallu ateb dim byd.”

Roeddent hefyd yn disgrifio eu dicter wrth orfod esbonio'r un peth dro ar ôl tro, gan gysylltu â pherson gwahanol bob tro roeddent yn ffonio. Yn ogystal, dywedodd rhai cyfranogwyr fod y cyngor a'r wybodaeth a gawsant yn anghyson, a ychwanegai at ddryswch.

“Pan oeddwn i mewn argyfwng, roeddwn i'n cael fy mhasio o un person i'r llall. Es i at y cyngor a doedd neb i siarad â nhw. Bob amser rhywun gwahanol ar y ffôn. Dyna oedd y peth mwyaf dryslyd a rhwystredig.”

Troednodiadau

[7] Mae'r gair 'lefiathan' yn cael ei ddefnyddio'n aml i ddisgrifio rhywbeth mawr neu arswydus.

“Dydw i ddim yn meddwl bod y staff wedi cael eu hyfforddi'n briodol i ddelio ag ymholiadau a chwynion. Rydw i'n gallu ffonio a siarad â thri pherson gwahanol a chael tri ateb gwahanol.”

Gall dull tîm ymholiadau'r awdurdod lleol hefyd effeithio'n fawr ar effaith emosiynol delio â'r dreth gyngor. Soniodd rhai cyfranogwyr am gael eu gwneud i deimlo fel anhwylystod, bod cwestiynau “ymwthiol” yn cael eu gofyn iddynt a'u bod yn teimlo eu bod yn cael eu cwestiynu, neu eu bod yn amhriodol yn gofyn am help.

Trafodir y materion hyn a mwy ymhellach yn y bennod ganlynol.

6. Canfyddiadau: Cael gafael ar gymorth

Dywedodd rhai cyfranogwyr eu bod wedi chwilio am gymorth neu gyngor am eu treth gyngor. Er bod y rhan fwyaf o'r rhain wedi mynd yn uniongyrchol at eu hawdurdod lleol i gael cymorth neu gyngor, dywedodd rhai cyfranogwyr eu bod wedi cysylltu â sefydliadau eraill i gael cymorth, ac mae'r manylion i'w gweld isod.

6.1. Cymorth allanol (Cyngor ar Bopeth, hybiau, sefydliadau eraill)

Dywedodd rhai cyfranogwyr eu bod wedi cysylltu â Chyngor ar Bopeth, naill ai dros y ffôn neu wyneb yn wyneb, i gael cyngor naill ai'n benodol am eu treth gyngor, neu oherwydd eu bod yn cael trafferth gyda'u harian yn fwy cyffredinol.

Roedd eu profiadau'n gymysg. Dywedodd cwpl o gyfranogwyr eu bod yn teimlo bod Cyngor ar Bopeth yn ddefnyddiol, yn syml ac yn dangos cydymdeimlad. Roeddent yn croesawu'r cyngor, a oedd yn aml yn eu cyfeirio at gymorth gan awdurdodau lleol y gallent elwa ohono.

Fodd bynnag, dywedodd cyfranogwyr eraill fod Cyngor ar Bopeth naill ai'n anodd cael gafael arno, neu mai dim ond gwybodaeth gyffredinol sy'n ymwneud â'r dreth gyngor, nad oedd yn berthnasol i'w hamgylchiadau penodol, y gallai ei chynnig.

“Doedden nhw ddim yn arbenigwyr ar y dreth gyngor, roedd yn gyngor generig ac yn wastraff amser. Roeddwn i mewn argyfwng ac nid oedd neb yn gallu helpu.”

Dywedodd rhai cyfranogwyr eu bod wedi ymweld â hybiau cymunedol lleol a'u bod yn gweld gwerth mewn siarad â rhywun wyneb yn wyneb. Er nad yw'n hawdd i bawb gael mynediad iddynt oherwydd eu lleoliad a'u horiau agor, dywedodd y rheini sydd wedi defnyddio hybiau eu bod yn hoffi gallu eistedd i lawr gyda rhywun a gofyn am help a chyngor.

Dywedodd rhai cyfranogwyr eu bod wedi cael cymorth neu arweiniad gan sefydliadau cymunedol neu swyddogion tai pan oedd llythyrau'n rhy anodd eu deall.

“Pan symudais i mewn, cefais help gan y swyddog tai gyda'r ffurflenni - wnaeth y cyngor ddim.”

“Fe wnaeth fy nghymdeithas dai helpu mwy na'r cyngor - fe wnaethon nhw eu ffonio nhw ar fy rhan.”

Soniodd un neu ddau o'r cyfranogwyr hefyd am fynd ar wefan Money Saving Expert Martin Lewis, a oedd yn ffynhonnell wybodaeth ddibynadwy iddyn nhw.

Soniodd un cyfranogwr am ei brofiad o gael help gan weithiwr cymorth i deuluoedd, a ffoniodd yr awdurdod lleol am y dreth gyngor ar ei rhan

6.1.1. Gwahaniaeth yn ôl grŵp demograffig

Teimlwyd bod cael mynediad at hybiau cymunedol yn heriol i rai pobl sy'n byw mewn lleoliadau gwledig, yn enwedig lle mae trafndiaeth gyhoeddus yn gyfyngedig.

“Mae'n rhaid i mi yrru 20 milltir i siarad â rhywun, a dim ond un bob 2 awr sydd, sy'n ychwanegu at y straen.”

Roedd awydd clir hefyd i hybiau gynnig cymorth amlieithog, i bobl nad ydynt yn siarad Cymraeg na Saesneg fel iaith gyntaf.

“Pe bai rhywun yn siarad [fy iaith i] yn yr hyb, byddai llawer o bobl yn mynd i ofyn am help.”

Tynnodd cyfranogwyr o gymunedau lleiafrifoedd ethnig yn benodol sylw at rôl mudiadau cymunedol ac elusennau dibynadwy o ran eu helpu i ddeall llythyrau, llenwi ffurflenni a chysylltu â'r cyngor am faterion treth gyngor.

Soniodd cyfranogwyr eraill eu bod yn dibynnu ar elusennau fel EYST a Race Council Cymru, lle maent eisoes wedi meithrin cysylltiadau ac ymddiriedaeth.

6.2. Ymwybyddiaeth o gefnogaeth awdurdodau lleol

Roedd ymwybyddiaeth o gymorth a gostyngiadau'r dreth gyngor yn gyfyngedig ac yn gymysg. Er bod y rhan fwyaf wedi clywed am y gostyngiad i berson sengl, neu ostyngiadau i fyfyrwyr a phobl ar fudd-daliadau, ychydig oedd yn gwybod sut i wneud cais neu fod angen gwneud cais am y rhan fwyaf o ostyngiadau. Roedd teimlad cryf nad oedd yna lawer o hyrwyddo'r cyfraddau a oedd ar gael na chyfeirio at gymorth a chyngor.

“Nid yw'n amlwg pa gymorth sydd ar gael oni bai fod rhywun yn dweud wrthyh. Fyddech chi byth yn gwybod o'r bil ei hun.”

“Does dim cysondeb na dealltwriaeth o'r hyn maen nhw'n gofyn amdano gan y cyhoedd o ran gostyngiadau, ac mae hyn yn aml ar gyfer pobl agored i niwed.”

O ganlyniad, soniodd rhai cyfranogwyr am rwystredigaethau nad yw'r cyfraddau is yn hysbys nac yn cael eu hysbysebu'n dda, ac nad oeddent hwy na'u teuluoedd wedi gwneud cais am ostyngiadau yr oeddent yn gymwys i'w cael, gan dalu'r gyfradd lawn pan oedd ganddynt hawl i gael bil llai.

“Doeddwn i ddim yn gwybod y gallwn i gael gostyngiad oherwydd fy merch anabl. Dywedodd rhywun wrthyf ar ôl i mi fod yn talu'n llawn am gwpl o flynyddoedd, pan allwn i fod wedi cael gostyngiad.”

“Mae'r cyfrifoldeb yn cael ei roi ar yr unigolyn. Mae'n eich gorfodi i feddwl am rywbeth neu ddibynnu ar eich teulu a'ch ffrindiau, ac nid yw hynny yn deg arnyn nhw.”

Cynyddodd y rhwystredigaethau hynny pan ddywedwyd wrth gyfranogwyr nad oedd ganddynt hawl i gael ad-daliad am “ordalu” eu treth gyngor. Dywedwyd bod hyn yn annheg ac yn anghytbwys.

“Mae fy mhartner wedi talu gormod am flynyddoedd oherwydd nad oedd hi'n gwybod bod mecanweithiau i helpu. Ni feddylodd erioed y gallai hi dalu llai. Doedd dim modd cael ad-daliad.”

6.2.1. Gwahaniaeth yn ôl grŵp demograffig

Yn gyffredinol, roedd llai o ymwybyddiaeth o gefnogaeth a gostyngiadau a disgowntiau ymysg pobl o grwpiau lleiafrifoedd ethnig. Ychydig o gyfranogwyr yn y grwpiau hyn a'r cyfweiliadau manwl oedd yn gwybod sut i wneud cais am ostyngiad yn y dreth gyngor neu ostyngiad i berson sengl, ac roedd nifer yn credu nad oeddent yn gymwys i gael unrhyw gymorth os nad oeddent yn cael Credyd Cynhwysol.

“Dydyn nhw ddim yn dweud wrthon ni os ydyn ni'n gallu cael help - mae'n rhaid i chi ganfod y wybodaeth eich hun.”

6.3. Profiad o gymorth gyda'r dreth gyngor

Dywedodd rhai cyfranogwyr eu bod wedi cael cymorth gyda'u treth gyngor mewn amrywiaeth o ffyrdd, gan gynnwys gostyngiadau ar gyfer rhai amgylchiadau, neu gymorth a gafwyd drwy'r system les. Dywedodd rhai cyfranogwyr eu bod wedi ymchwilio i weld a oeddent yn gymwys i gael gostyngiad neu ddisgownt ar eu treth gyngor. Pan gawson nhw hynny, profiad cyffredin oedd nad oedd hynny'n syml. Roedd gwybodaeth yn aml yn anodd dod o hyd iddi, yn anodd ei deall ac yn golygu bod gofyn am gymorth yn fwy o her.

“Nid oes proses syml wedi'i hanelu at helpu'r cyhoedd. Mae'n teimlo fel rhwystr ar ôl rhwystr, lle rydych chi'n talu am wasanaethau sydd wedi'u hanelu at helpu pobl ond wedyn dydych chi ddim yn cael help pan fydd ei angen arnoch chi.”

Roedd profiadau o geisio cymorth yn eang, ond roedd thema'n rhedeg drwyddi draw: mae cyfranogwyr yn credu y dylai fod yn llawer haws nag ydyw. Yn aml, dywedodd cyfranogwyr ei bod yn anodd dod o hyd i wybodaeth, roeddent yn teimlo eu bod yn cael eu trosglwyddo i wahanol bobl ar y ffôn a bod ffurflenni'n gymhleth, yn hir ac yn ymwithiol.

Roedd yn gyffredin i gyfranogwyr deimlo mwy o straen a phryder, yn enwedig wrth dderbyn gwybodaeth gymysg, yn aml o fewn yr un awdurdod lleol.

6.3.1. Gostyngiad person sengl

Y gostyngiad i berson sengl oedd y gostyngiad mwyaf cyfarwydd, a'r un yr oedd gan lawer o gyfranogwyr brofiad ohono. Roedd y profiad hwnnw'n amrywio. Dywedodd rhai fod y broses o gael gostyngiad person sengl wedi bod yn syml ac wedi cael ei gymhwyso'n awtomatig wrth symud i eiddo newydd.

“Bu bron i mi â brathu eu llaw i ffwrdd pan ddywedon nhw y byddwn i'n cael disgownt; fe gawson nhw bwyntiau am fod yn rhagweithiol.”

Dywedodd un cyfranogwr ei bod wedi cefnogi ei mam ar ôl i'w thad farw, a defnyddiodd y gwasanaeth '[Dywedwch Wrthym Unwaith](#)', a oedd yn rhoi gwybod i'r holl bartïon perthnasol am y farwolaeth. Yn yr achos hwn, o fewn wythnos cawsant lythyr gan yr awdurdod lleol yn ei hysbysu bod y gostyngiad person sengl wedi'i gymhwyso, a gwerthfawrogwyd hynny.

I'r gwrthwyneb, rhannodd un cyfranogwr ei brofiad o weinyddu'r dreth gyngor ar ôl marwolaeth ei fam, yr oedd wedi rhannu cartref â hi.

“Pan fu farw fy mam, trefnodd y cyngor i mi dalu 100% o'r dreth gyngor ar unwaith a dywedodd fod yn rhaid i mi ei thalu ar unwaith yn hytrach nag asesu fy sefyllfa ariannol, nad oedd wedi newid. Roeddwn i'n delio â phrofedigaeth yn ogystal â'r stwff ariannol, roedd y newid mor sydyn, roedd yn anodd. Ni chafwyd sgwrs. Anfonasant lythyr drwy'r post, a dyna sut y deuthum i wybod. Roedd gen i bythefnos cyn i'r taliad cyntaf fod yn ddyledus.”

Rhannwyd y profiad hwn gan gyfranogwr arall, a ddisgrifiodd ei anhawster ar ôl profedigaeth. Ni fu unrhyw gynnig o gynllun talu nac unrhyw fath o gymorth, cefnogaeth na chydymdeimlad.

Er bod rhai wedi dweud bod y disgownt o 25% yn “well na dim”, roedd eraill yn cwestiynu pam nad oedd y gyfradd yn ostyngiad o 50%, i adlewyrchu cyfran y golled yn dilyn profedigaeth neu i'r rheini sy'n byw ar eu pen eu hunain.

“Pam ei fod yn 25%, ac nid 50% os bydd rhywun yn marw a dim ond dau ohonoch chi oedd yno.”

“Os ydych chi'n sengl, pam na allwch chi gael gostyngiad o 50%? Dydw'i ddim yn deall hynny.”

6.3.2. Anabledd

Roedd canfyddiad cyffredinol bod cefnogaeth ar gael i bobl ag anableddau - neu aelwydydd sy'n cynnwys person ag anabledd - ond dim llawer o ddealltwriaeth o beth allai'r gefnogaeth honno fod, na'r cymhwysedd ynghylch anabledd a'r dreth gyngor.

“Oes yna rywbeth os oes gennych chi ddibynnydd, person anabl yn y cartref? Os oes rhywun yn byw gyda dementia?”

Dywedodd un cyfranogwr ei bod yn meddwl ei bod yn cael gostyngiad yn y dreth gyngor oherwydd ei hanabledd, ond dywedodd ei bod yn anodd dehongli ei bil.

Fodd bynnag, roedd cyfranogwyr a oedd wedi gwneud cais am ostyngiad sy'n gysylltiedig ag anabledd neu wedi ceisio llywio drwy'r meini prawf cymhwysedd yn aml yn dweud bod y broses yn gwneud iddynt deimlo'n rhwystredig, wedi'u dadrithio neu dan fwy o straen. Roedd y materion hyn yn tueddu i berthyn i ddau gategori:

- sut yr ymdriniwyd â hwy
- methu â bod yn gymwys

Rhannodd un cyfranogwr ei brofiad o wneud cais am ostyngiad ar ôl llawdriniaeth newid bywyd. Yn ystod ei adferiad, ceisiodd fudd-daliadau am y tro cyntaf, gan gynnwys gostyngiad yn ei dreth gyngor, ond dywedodd fod y profiad a'r natur ailadroddus o rannu'r un wybodaeth â gwahanol staff wedi peri iddo gwestiynu a oedd y profiad yn werth y disgownt.

“Doeddwn i erioed wedi cael budd-daliadau, felly ar ôl fy llawdriniaeth roedd angen i mi wneud hynny ac roedd fel eistedd o flaen y gestapo ^[troednodyn 8]. Roedd yn hunllef. Digwyddodd tua dwsin o weithiau. Dylent roi gweithiwr achos i chi, er mwyn cael un person i'ch helpu drwy'r cyfan fel nad oes rhaid i chi ailadrodd y cyfan bob tro. Roedd yn gwneud i mi deimlo dan straen mawr ar adeg pan oedd gen i broblemau iechyd difrifol ac yn wynebu marwoldeb. Roedd yn teimlo fel eu bod nhw eisiau eich arian ac nad oedden nhw'n poeni amdanoch chi. Doedden nhw ddim yno i roi help, roedd yn achosi iselder. Nid ydynt yn poeni a oes gennych fwyd ar y bwrdd, dim ond eisiau i chi dalu eich treth gyngor y maent. Dydych chi ddim yn cael eich gwneud i deimlo fel person. Mae'n berson bregus sy'n cael ei wneud i deimlo fel pe baen nhw'n ceisio sugno arian.”

Roedd rhywfaint o rwystredigaeth am y rheolau ynghylch y meini prawf cymhwyso. Dywedodd un cyfranogwr ei bod wedi deall y gallech chi gael help os oes gan rywun glefyd Parkinson's, clefyd sy'n effeithio ar ei mam. Er iddi ddweud bod y broses o ateb “ychydig o gwestiynau dros y ffôn” yn syml, dywedwyd wrthi nad oedd yr aelwyd yn gymwys gan fod ei brawd yn byw yn yr eiddo.

Dywedodd cyfranogwr arall, er ei bod wedi'i chofrestru'n ddall a bod ganddi ystafell ymolchi wedi'i haddasu, nad oedd yn gymwys i gael gostyngiad oherwydd ei bod yn rhannu ei hystafell ymolchi â'i gŵr.

“Bydd y cyngor yn cydnabod bod y person hwn yn anabl. Mae gen i broblemau hygyrchedd, dydw i ddim yn gallu gweld yn iawn, mae gen i gi tywys, felly rydw i'n cael bathodyn glas anabledd. Ond oherwydd nad eich ystafell ymolchi chi'n benodol yw hi - rydyn ni'n byw mewn byngalo bach dwy ystafell wely - oherwydd nad yw eich ystafell wely wedi'i haddasu'n benodol ar gyfer eich defnydd chi yn unig, ni allwn hyd yn oed roi'r gostyngiad cyfradd anabledd i chi. Mae'n teimlo'n annheg, ac mae bron yn teimlo fel gwahaniaethu ar brydiau.”

Yn gyffredinol, teimlai cyfranogwyr anabl fod rhaniad amlwg rhwng y rhai a oedd yn bodloni meini prawf penodol iawn a'r rhai nad oeddent yn eu bodloni, hyd yn oed lle'r oedd eu hanghenion a'u costau o ddydd i ddydd yn debyg iawn.

Troednodiadau

[8] Weithiau, mae pobl yn defnyddio'r gair 'gestapo' i ddisgrifio person neu sefydliad y maen nhw'n teimlo sy'n eu cwestiynu'n ddi-baid.

6.3.3. Gostyngiad i fyfyrwyr

Dywedodd rhai cyfranogwyr eu bod yn meddwl bod gostyngiad yn y dreth gyngor ar gael i fyfyrwyr, ac roedd gan gwpl brofiad o'r cyfraddau hynny wrth fyw fel myfyriwr.

Dywedodd y cyfranogwyr hyn eu bod wedi croesawu'r cymorth ar y pryd ond roeddent yn cwestiynu pam nad oedd wedi'i bennu yn gymesur ar sail cyfansoddiad yr aelwyd.

"Mae'n ddiddorol iawn, os oes tŷ sy'n llawn myfyrwyr, eu bod yn cael eu eithrio'n llawn rhag talu'r dreth gyngor, ond os oes cyfran o fyfyrwyr dim ond cael eich eithrio o 25% gewch chi. Nid yw'n cyfateb i'r nifer, felly os oes pump ohonoch yn rhannu tŷ a phedwar ohonoch yn fyfyrwyr, mae'n rhaid i un person dalu 75%."

6.3.4. Cyplau oedran cymysg

Dywedodd cwpl o gyfranogwyr eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cosbi gan reolau cyplau oedran cymysg yn y system fudd-daliadau, a oedd, yn eu barn nhw, yn rhoi disgownt iddynt, nes i un person lithro i grŵp oedran hŷn a oedd yn effeithio ar eu hawl i Gredyd Cynhwysol.

Dywedodd un cyfranogwr, er ei bod hi a'i phartner ar fudd-daliadau a bod ei gŵr ar bensiwn y fyddin, eu bod wedi cael gostyngiad yn y dreth gyngor. Ond pan ddechreuodd ei gŵr hawlio pensiwn y wladwriaeth, collasant eu gostyngiad a bu'n rhaid iddynt dalu eu bil treth gyngor yn llawn.

"Nid oeddem yn disgwyl i hyn ddigwydd... cawsom wybod tua chwe wythnos ar ôl i'm gŵr gael ei bensiwn y wladwriaeth, drwy dderbyn bil treth gyngor. Fe wnaethon ni siarad â'r cyngor ac fe wnaethon nhw ddweud 'dyna sut mae hi'... oherwydd bod y llywodraeth wedi newid y rheolau, os byddwch chi'n dod yn gwpl oedran cymysg. Cyn hynny roedd y llywodraeth yn eich talu chi fel cwpl, ond nawr rydych chi wedi cael eich gwahanu a nes byddwch chi'ch dau mewn oedran pensiwn dydych chi ddim yn cael y cymorth hwnnw. Roedd fy ngŵr ar bensiwn rhyfel anabledd ac roeddwn i'n hawlio lwfans cyflogaeth a chymorth a rhan fach ar ei gyfer ef, ond cyn gynted ag y cyrhaeddodd oed pensiwn, daeth hynny i ben ac fe wnaethon nhw fy rhoi ar sail cyfraniadau, a oedd yn golygu bod yn rhaid i ni dalu'r dreth gyngor yn llawn ... rydyn ni nawr yn talu rhent llawn a threth gyngor lawn ar ei bensiwn, sy'n anodd."

6.3.5. Credyd Cynhwysol

Mae rhai cyfranogwyr sydd ar Gredyd Cynhwysol yn dweud eu bod wedi gofyn am help i ddelio â'u treth gyngor, ond yn dweud bod y broses wedi bod yn fychanol ac yn annynol. Dywedasant fod eu profiad o agwedd rhai o staff yr awdurdod lleol a'r cwestiynau a ofynnwyd iddynt yn gwneud iddynt deimlo embaras.

"Rydw i nawr yn derbyn budd-daliadau, a nifer y cwestiynau maen nhw'n gofyn i chi er mwyn cael disgownt, rydw i wedi gorfod neidio drwy'r cylchoedd a rhoi

llawer o dystiolaeth iddyn nhw - llythyrau meddygon a'r manylion lleiaf am danwydd, gwres, goleuadau. Roedd fel petai'r Brawd Mawr yn dy wyllo di."

"Mae gofyn am esemptiad yn hunllef, ar fudd-daliadau ac fel myfyriwr. Mae'n rhaid i chi neidio drwy sawl cylch i'w gael, ac mae'n gallu teimlo'n annynol."

6.4. Cynlluniau talu

Mae cynlluniau talu wedi bod yn ffordd ddefnyddiol o rannu cost ôl-ddyledion, yn ôl cwpl o gyfranogwyr, ond gellid gwneud mwy i hyrwyddo'r cymorth.

Cymysg yw'r wybodaeth am gynlluniau talu'r dreth gyngor. Er bod gan rai brofiad, nid yw eraill yn credu ei fod yn wasanaeth sydd ar gael i bobl sy'n talu'r dreth gyngor.

"Y dreth gyngor yw'r unig fil na allwch sefydlu cynllun talu ar ei gyfer, felly gallant fynd â chi i'r llys."

Mae eraill yn credu nad yw wedi cael ei hysbysebu'n dda, gyda chyfranogwyr yn mynd at Cyngor ar Bopeth am gymorth neu'n teimlo pwysau enfawr oherwydd eu bod yn credu bod yn rhaid iddynt dalu eu hól-ddyledion ar unwaith. Gall hyn fod yn gwbl llethol, yn ôl cyfranogwyr, sy'n cwestiynu pam mae eu hawdurdod lleol yn credu y gallant dalu bil mawr pan nad ydynt wedi gallu fforddio eu taliadau misol.

I rai, byddai talu'r bil yn golygu mynd heb fwyd neu hanfodion eraill, sy'n ofn y teimlant yn aml ei fod yn cael ei ddiystyru gan eu cyngor gan flaenoriaethu talu'r bil. Mae'r cyfranogwyr hyn yn aml yn cael eu rhoi ar gynllun talu, sy'n rhoi rhywfaint o ryddhad iddynt, ond dywedant fod cyrraedd y pwynt hwnnw'n llafurus ac yn ddiangen.

"Roedd yn straen, cael gwybod bod yn rhaid i chi dalu eich bil diwethaf. Gwnaethant ddiwynnu dau fis yn unig, a dywedais na allwn fforddio bwyta. Yna, canslodd y gwasanaethau cwsmeriaid y taliad a sefydlu cynllun talu dros ddau fis - roedd yna sioc gychwynnol a chael eich anfon o bared i bost. Hoffwn i'r math hwnnw o gyfathrebu newid."

"Ddeng mlynedd yn ôl, pan symudais i mewn i'm tŷ rhent am y tro cyntaf, symudais i mewn ar y cyntaf o lonawr, cysylltu â'r cyngor a chefais fy nharo ar unwaith gan fil mawr na allwn fforddio ei dalu. Doedd y person wnes i siarad â nhw ddim wedi cynnig cynllun talu, a dywedodd fod angen i mi dalu amdano'n llawn. Fyddwn i ddim wedi gallu bwyta. Yna, es i drwodd i'r adran gwasanaethau cwsmeriaid, a ddywedodd y gallwn dalu hanner nawr a hanner y mis nesaf, a oedd yn well."

Yn gyffredinol, roedd cyfranogwyr eisiau gwybodaeth gliriach, ymlaen llaw am gynlluniau talu a'r cymhwysedd ar gyfer cynlluniau talu, a fyddai, yn eu barn nhw, yn lleddfu rhywfaint o'r straen a'r ofn cychwynnol hwnnw a achosir gan system y dreth gyngor.

6.5. Rhwystrau ac effeithiau pellach

6.5.1. Cymhlethdod y ffurflenni

Un o'r rhwystrau a nodwyd gan gyfranogwyr a oedd wedi ceisio cael gafael ar gymorth neu gyfraddau is neu ddisgownt, oedd cymhlethdod y ffurflenni y gofynnwyd iddynt eu llenwi - ac weithiau hyd yn oed gwybod am y ffurflenni y gallai fod angen iddynt eu llenwi.

Dywedodd un cyfranogwr na ddyfarnwyd gostyngiad treth gyngor iddo mewn eiddo newydd - a ddyfarnwyd iddo yn ei eiddo blaenorol - am nad oedd wedi llenwi ffurflen, nad oedd yn ymwybodol ohoni.

“Doeddwn i ddim yn gwybod bod ffurflenni ar wahân oherwydd roeddwn i'n tybio eu bod i gyd mewn un. Dywedwyd wrthyf am llenwi'r ffurflenni hynny ac y byddai popeth yn cael ei drosglwyddo. Mae mor gymhleth oherwydd bod ochr arall iddi na chefais wybod amdani.”

Nid yr iaith sy'n cymhlethu ffurflenni fel arfer, yn ôl y rhan fwyaf o gyfranogwyr, ond y ffordd y caiff cwestiynau eu geirio, nifer y cwestiynau ac amherthnasedd tybiedig yr hyn a ofynnir iddynt. Weithiau, mae hyn yn ychwanegol at ohebiaeth flaenorol neu eu biliau, y maent yn teimlo nad yw'r cwestiynau bob amser yn cyfateb iddynt.

“Mae gan y ffurflenni eu hunain gwestiynau dryslyd, dydyn nhw ddim yn gwneud synnwyr, ac rwy'n poeni nad ydyn nhw'n cael eu llenwi'n iawn. Rydw i wedi cael llythyrau'n ôl a dydw i ddim yn deall dim ohonyn nhw. Wrth edrych ar yr holl ffigurau, alla i ddim gweithio allan beth rydw i'n ei gael a beth rydw i fod i'w dalu.”

“Os ydych chi'n ei ddatgan oherwydd y rheswm hwn, dylai fod ffurflen sy'n berthnasol i'r rheswm yn hytrach na gorfod ateb cwestiynau am sefyllfa ariannol. Dydw i ddim yn gofyn am ostyngiad oherwydd fy sefyllfa ariannol, rydw i'n gofyn oherwydd fy mod i'n anabl yn gorfforol a dylai fod yn gysylltiedig â'r ochr feddygol. Gofyn i mi llenwi ynghylch sefyllfa ariannol, sefyllfa deuluol, p'un ai ydw i'n berchennog neu'n rhentu, dylai hyn fod yn amherthnasol i p'un a ydw i'n gymwys i gael disgownt ar gyfer anabledd ai peidio. Fe wnes i roi'r ffidil yn y to yn y diwedd.”

6.5.2. Diffyg gwybodaeth

Yn gyffredinol, roedd cyfranogwyr yn teimlo bod diffyg tryloywder a gwybodaeth am y dreth gyngor a'r cymorth sydd ar gael. Lle daethpwyd o hyd i wybodaeth, roedd cyfeiriadau yn aml ar goll neu wedi dyddio.

O ganlyniad, teimlai rhai cyfranogwyr nad yw pobl sydd angen cymorth bob amser yn cael yr help sydd ei angen arnynt ac y maent yn gymwys i'w gael.

Dyweddodd cwpl o gyfranogwyr nad oedd gwybodaeth ar wefan eu cyngor lleol ynghylch beth i'w wneud pan fydd rhywun yn marw. Effaith hyn oedd bil treth gyngor mawr a oedd wedi'i ddyddio'n ôl i adeg colli aelod o'r teulu a cholli'r cymorth ariannol cysylltiedig hwnnw.

“Dydych chi ddim yn cael llawer o ran profedigaeth, mae'n eithaf generig. Does dim byd penodol i helpu pobl mewn profedigaeth, neu i'w cynghori i fynd i rywle arall am gymorth.”

6.5.3. Ddim yn helpu pawb sydd ei angen

Mae cyfranogwyr sy'n cael cyfradd ostyngol neu gymorth yn gwerthfawrogi'r cymorth, er bod eu sefyllfa ariannol ehangach yn aml yn dal i fod dan bwysau, sy'n golygu bod ganddynt benderfyniadau cyllidebu anodd i'w gwneud a'u bod yn dal i fyw o fis i fis.

Mae teimlad, ymysg rhai cyfranogwyr, nad yw cymorth treth gyngor ar gael i bawb y mae ei angen arnynt, weithiau oherwydd rheolau y maent yn dweud eu bod yn teimlo sy'n annheg. Yn aml, teimlai teuluoedd sy'n gweithio eu bod wedi syrthio drwy'r bylchau o ran cymorth, nad oeddent yn gymwys i gael disgownt neu gyfraddau gostyngol ond eu bod yn dal i gael trafferth rhoi bwyd ar y bwrdd. Mae cyfranogwyr sy'n disgrifio eu hunain fel aelwyd incwm isel, p'un a ydynt yn cael budd-daliadau ai peidio, yn disgrifio eu trafferthion o ran talu eu biliau, gan gynnwys y dreth gyngor. Mae rhai cyfranogwyr yn teimlo bod pobl yn llithro drwy'r bylchau mewn cymorth, yn ennill gormod o arian i gael cymorth, ond yn dal i gael trafferth ariannol, gydag opsiynau cyfyngedig ar gyfer cymorth.

“Dylid cael rhywbeth i bobl nad ydynt yn ddigon tlawd i gael cymorth, ond nad ydynt yn ddigon cyfoethog i ymdopi'n gyfforddus.”

“Doedd fy mhartner ddim yn gweithio ac roedd ar Gredyd Cynhwysol, aeth i weld a oedd help ar gael, ond doedd dim ar gael oherwydd fy mod i'n gweithio. Edrychais ar-lein i weld a oedd help ar gael. Doeddwn i ddim yn gwybod beth arall i'w wneud.”

“Os nad ydy'ch partner yn gweithio dydych chi dal ddim yn gymwys, rydyn ni wedi cael gwybod nad oes dim byd i'w gael.”

Roedd cyfweiliadau manwl ag aelwydydd incwm isel sy'n gweithio yn atgyfnerthu'r ymdeimlad hwn o syrthio drwy'r bylchau, gyda chyfranogwyr yn teimlo bod cymorth yn canolbwyntio ar y rheini sy'n ddi-waith tra'n anwybyddu pobl mewn swyddi cyflog isel neu ansicr.

Dyweddodd eraill, fel y soniwyd eisoes yn yr adroddiad hwn, bod y meini prawf cymhwyso ar gyfer y rhai sy'n ceisio gostyngiad oherwydd anabledd yn annheg, gan eithrio rhai pobl anabl oherwydd meini prawf penodol.

“Er fy mod wedi fy nghofrestru'n ddall a bod gennyf ystafell ymolchi wedi'i haddasu, dydw i ddim yn gymwys gan fy mod yn rhannu fy ystafell ymolchi gyda fy ngŵr.”

6.5.4. Rhwystrau ychwanegol i leiafrifoedd ethnig

Roedd llawer o'r rhwystrau a wynebwyd gan gyfranogwyr yn effeithio ar y rheini o gymunedau ethnig, ond ymysg y grwpiau hyn roedd rhwystrau ychwanegol a oedd yn canolbwyntio ar ddwy thema:

- iaith
- diwylliant

Rhwystrau iaith i gyfranogwyr nad yw'r Gymraeg na'r Saesneg yn iaith gyntaf iddynt, oedd yr her fwyaf cyffredin. Roedd i ba raddau yr oedd hyn yn effeithio ar gyfranogwyr fel arfer yn dibynnu ar faint o Saesneg roeddent yn ei siarad neu'n ei deall. I rai, roedd angen help arnynt i gyfieithu biliau a gohebiaeth am eu treth gyngor, a gwnaethant hynny drwy ofyn i ffrindiau a theulu am help. Mae eraill yn defnyddio Google Translate i geisio deall eu biliau.

Y tu hwnt i hyn, dywedodd cyfranogwyr a oedd yn rheoli eu biliau ar-lein fod y porth yr oedd yn rhaid iddynt ei ddefnyddio yn lletchwith, bod angen gormod o gliciau, ac nad oedd y Saesneg yn ddigon syml iddynt ei deall.

Roedd rhwystrau iaith yn gwneud rhyngweithio â'r cyngor yn anodd, gyda chyfranogwyr yn disgrifio'r angen i ofyn i staff siarad yn araf neu mewn iaith syml.

“Weithiau rydyn ni'n dweud, siaradwch yn araf oherwydd dydy ein Saesneg ddim yn dda iawn.”

“Mae iaith yn rhwystr mawr. Dylai fod yna bobl sy'n gallu ei egluro yn [fy iaith].”

Dywedodd rhai cyfranogwyr y byddai gwella eu sgiliau Saesneg yn eu helpu i deimlo'n fwy annibynnol, ac y byddent yn gwerthfawrogi help er mwyn iddynt allu bod yn fwy annibynnol.

“Petaent yn fy helpu i wella fy Saesneg, byddwn yn gallu darllen llythyrau a gwneud popeth fy hun.”

Ond aeth rhwystrau y tu hwnt i iaith, i rai cyfranogwyr. Roedd elfen ddiwylliannol hefyd - dywedodd rhai fod pobl yn eu cymuned yn amharod i ofyn am gymorth neu'n teimlo cywilydd wrth geisio cymorth, hyd yn oed pan fyddant yn ei chael hi'n anodd.

“Mae pobl yn teimlo'n swil wrth ofyn am help. Dydyn nhw ddim eisiau i bobl eraill wybod nad ydyn nhw'n gallu talu.”

Yn gwaethygu'r amharodrwydd i ofyn am help mae'r canfyddiad ymysg rhai cyfranogwyr nad yw gwybodaeth yn cael ei rhannu'n rhagweithiol, yn enwedig i'r rhai nad ydynt yn siaradwyr Saesneg iaith gyntaf. Felly, os nad yw'n hawdd dod o hyd i'r cymorth, mae'n aml yn cael ei golli.

“Mae'n rhaid i chi ymchwilio i bopeth eich hun - dydyn nhw ddim yn hysbysebu'r help.”

Ac, fel gyda chyfranogwyr eraill, gallai baich ariannol y dreth gyngor ar ben costau byw ehangach fod yn niweidiol ac arwain at ddirywiad. Dywedodd un cyfranogwr ei fod wedi mynd i'r banc am fenthyciad i dalu ôl-ddyledion ar ôl bygythiadau niferus o achos llys. Cafodd cyfranogwr arall fenthyciad gan yr undeb credyd ar ôl mynd ar ei hôl hi gyda'i threth gyngor.

Roedd y pwysau ariannol o gael benthyciadau i glirio ôl-ddyledion, yn ychwanegu addaliadau pellach ar ben cyllidebau a oedd eisoes dan bwysau.

7. Awgrymiadau ar gyfer gwella

Drwy gydol y grwpiau ffocws a'r cyfweiliadau manwl, awgrymodd y cyfranogwyr newidiadau a gwelliannau yr hoffent eu gweld, a fyddai, yn eu barn nhw, yn gwneud y dreth gyngor yn decach, yn lleihau rhwystrau ac yn lliniaru problemau'n gynharach.

7.1. Meddalau'r dull gweithredu wrth gasglu ôl-ddyledion

Mater a gododd dro ar ôl tro i gyfranogwyr oedd y ffordd yr ymdriniwyd â hwy os oeddent yn mynd i ddyled. Gallai llithro ar ei hôl hi gyda thaliad treth gyngor ddigwydd am nifer o resymau, gan gynnwys colli swydd, anawsterau ariannol difrifol, profedigaeth neu oherwydd yr anghofwyd amdano.

Roedd y cyfranogwyr yn unedig yn eu barn y dylid ymdrin â thaliadau treth gyngor a fethwyd mewn ffordd sy'n llai "ymosodol" a "bygythiol", a gyda mwy o gydymdeimlad a chyfeirio.

Yn hytrach na mynnu taliad llawn gyda bygythiad llys, dywedodd cyfranogwyr fod y ffordd yr ymdrinnir â nhw yn gallu gwneud gwahaniaeth enfawr i'w hiechyd meddwl a'u lles, yn enwedig ar adeg pan allent fod yn agored i niwed.

"Dweud: 'mae'r taliad hwn wedi'i fethu, dyma eich opsiynau', nid 'talw neu fynd i'r llys'."

Awgrymodd cyfranogwyr eiriad ysgafnach gyda chyfeiriadau clir at gymorth, opsiynau - gan gynnwys cynlluniau talu - ac ychwanegu rhestr 'cwsmer agored i niwed', sy'n cael ei defnyddio gan sefydliadau eraill fel darparwyr cyfleustodau a darparwyr gwasanaethau eraill.

7.2. Cyfeiriadau clir at gymorth a chynghor gyda'r bil

Mae amrywiaeth o gymorth y mae cyfranogwyr wedi gofyn amdano, mewn cysylltiad â'u treth gyngor, ond yn aml nid ydynt yn gallu dod o hyd i'r hyn y maent yn chwilio amdano neu nid ydynt yn gwybod ble i ddechrau.

Awgrym cyffredin a gynigiwyd oedd cyfeirio clir i helpu gydag opsiynau cymorth a chynghor wedi'u rhoi ar y bil ei hun. Ar adeg pan mae pobl yn cael trafferth gyda'u harian, mae atebion cyflym yn cael eu gwerthfawrogi. Hoffent hefyd weld pa gymorth a allai fod ar gael, fel gostyngiadau mewn cyfraddau, disgowntiau a chynlluniau talu, y mae cyfranogwyr yn credu y dylid eu hyrwyddo'n well.

Mae hefyd yn bwysig bod dolenni'n hawdd eu dilyn a'u cwblhau, nad yw cyfranogwyr yn 'troi mewn cylchoedd' gyda dolenni sydd wedi torri, gwybodaeth am gymorth sydd wedi dyddio neu rifau ffôn gyda systemau awtomataidd sy'n anodd eu defnyddio.

Fodd bynnag, mae hefyd yn bwysig bod y bil yn parhau i fod yn glir, yn hawdd ei ddeall ac wedi'i ddylunio'n dda, er mwyn osgoi llethu pobl.

7.3. Cymorth dyneiddiol

Gall gofyn am gymorth a chefnogaeth gyda'r dreth gyngor fod yn anodd i rai pobl ac mae'n aml ar adeg pan maent eisoes yn dioddef straen. Roedd profiadau a gynhwyswyd yn yr ymchwil hwn yn amrywiol, ond ffactor cyffredin oedd y gwerth yr oedd cyfranogwyr yn ei deimlo pan oeddent yn cael eu trin gyda chysondeb a pharch.

Roedd gwybodaeth aneglur ar-lein, diffyg gwybodaeth ac anghysondebau yn yr wybodaeth a oedd yn cael ei darparu yn rhwystredigaethau cyffredin, ac roedd yn well gan lawer siarad â pherson gwybodus.

Roedd pobl hŷn yn aml yn ffafrio cymorth wyneb yn wyneb a byddent yn hoffi gweld mwy o hybiau cymunedol neu sesiynau galw heibio ar gael mewn lleoliadau cymunedol fel llyfrgelloedd, canolfannau hamdden neu gaffis.

“Rhywun yn y llyfrgell leol neu'r ganolfan gymunedol gyda bwrdd a stondin godi yno i roi cyngor ar adeg benodol fel dydd Llun cyntaf pob mis.”

“Mae angen swyddogion cymdogaeth a gweithwyr datblygu cymunedol arnoch chi - dim ond i siarad â phobl. Pan fydd pobl yn deall sut mae pethau'n gweithio, maen nhw'n fwy ystyriol, a does gennym ni ddim hynny mwyach.”

“Mae ar-lein yn iawn os ydych chi'n gwybod beth rydych chi'n ei wneud. Fyddai gan fy rhieni ddim syniad pe na fyddwn ni'n eu helpu, a bydden nhw'n mynd i bob math o drafferthion. Dydyn nhw ddim yn ystyried pethau fel hynny.”

Awgrymodd un cyfranogwr y dylid cael cynrychiolydd lleol ar gyfer pobl fwy agored i niwed, rhywun i ddod yn wyneb cyfarwydd â gwybodaeth drylwyr am y dreth gyngor.

Ond soniwyd yn aml am ddymuno siarad â pherson - yn enwedig ar gyfer achosion mwy cymhleth neu pan fydd hi'n anodd dod o hyd i wybodaeth. Soniodd rhai cyfranogwyr am eu rhwystredigaethau wrth orfod esbonio'r un pethau dro ar ôl tro bob tro maen nhw'n ffonio, gan eu bod yn siarad â rhywun gwahanol bob tro.

Pan fyddant yn llwyddo i siarad â pherson, mae'r cyfranogwyr eisiau rhywun sy'n deall eu sefyllfa a gwybodaeth glir. Maen nhw eisiau teimlo eu bod yn cael eu parchu a'u cefnogi.

Awgrymodd cyfranogwyr y byddai cael tîm allgymorth cynnar, cyswllt penodol neu weithiwr achos yn nhîm y dreth gyngor yn gwneud gwahaniaeth sylweddol, yn enwedig i bobl sy'n delio â heriau lluosog neu gymhleth fel anabledd, profedigaeth neu ôl-ddyledion diweddar. Roedd gallu siarad â'r un person bob tro yn cael ei ystyried yn fwy effeithlon ac yn llai o straen emosiynol nag egluro eu sefyllfa dro ar ôl tro i wahanol staff.

7.4. Caniatáu i bobl ddewis eu dyddiad talu

Tynnwyd sylw at amseriad taliadau Debyd Uniongyrchol fel problem i rai cyfranogwyr, yn enwedig os daw'r arian o'u banc ganol neu ddiwedd y mis, os cânt eu talu'n wythnosol neu os yw eu hincwm yn afreolaidd.

Gallai caniatáu dewis dyddiad ar gyfer Debyd Uniongyrchol fod o fudd enfawr i bobl sy'n ei chael hi'n anodd rheoli cyllideb eu haelwyd.

Ar ben hynny, dywedodd rhai cyfranogwyr y byddent yn croesawu 'seibiant talu' pe bai eu cyllid yn arbennig o brin am un mis.

Er bod rhai awdurdodau lleol eisoes yn cynnig rhywfaint o hyblygrwydd, nid oedd ymwybyddiaeth o hyn ymysg cyfranogwyr yr ymchwil hwn, felly efallai y bydd angen ystyried materion cyfathrebu.

7.5. Ffurflenni syml

Soniodd rhai cyfranogwyr am gymhlethdod y ffurflenni sy'n gysylltiedig â chyfraddau, disgowntiau a gostyngiadau'r dreth gyngor. Er bod yr iaith yn hawdd ei deall o ran y geiriau a ddefnyddiwyd, roedd rhai'n cael trafferth gwybod am beth y gofynnwyd iddynt ac yn poeni eu bod yn mynd i lenwi'r ffurflenni'n anghywir.

Awgrymwyd symleiddio ffurflenni a chynnwys blwch ticio i wneud cais am y disgownt person sengl ar ffurflenni ar-lein, er mwyn cyflymu'r broses o ddiweddarau amgylchiadau.

7.6. Gwell tryloywder o ran gwariant

Soniodd cyfranogwyr yn aml nad oeddent yn gwybod i ble mae eu harian treth gyngor yn mynd a ble mae'n cael ei wario. Cafwyd awgrym gan rai cyfranogwyr y byddai bod yn glir ynghylch ble a sut mae arian yn cael ei wario yn gwneud iddynt deimlo eu bod yn cael mwy o werth am arian.

Roedd hyn yn arbennig o wir pan oedd cyfranogwyr yn teimlo bod gwasanaethau cyhoeddus lleol fel casgliadau biniau, argaeledd canolfannau hamdden a llyfrgelloedd ac amodau ffyrdd wedi gwaethygu.

Byddai deall lle'r oedd angen gwario arian a pha dargedau a gyflawnwyd y flwyddyn flaenorol yn helpu rhai cyfranogwyr i ddeall a gwerthfawrogi'n well yr angen am y dreth gyngor a'i gwerth.

“Dangos i ni'n union ble aeth arian y llynedd, hyd yn oed canrannau'n unig.”

“Rydyn ni eisiau gwybod i ble mae'r arian yn mynd - beth wnaethoch chi gyda'n £100 y mis?”

Awgrymodd cyfranogwyr yn aml y dylai hyn fod yn rhan o'r bil blyneddol, yr oeddent am ei weld wedi ei eitemeiddio yn hytrach na chael un llinell yn dangos cyfanswm.

7.7. Ymgysylltu â'r gymuned

Byddai mwy o ymwneud â sut mae'r dreth gyngor yn cael ei gwario yn helpu rhai cyfranogwyr i deimlo'n fwy cadarnhaol am eu bil blynyddol. Byddai ymgynghori ar wariant lleol a deall lle mae cymunedau'n teimlo y dylid canolbwyntio arian yn helpu pobl i deimlo bod ganddynt fwy o berchnogaeth ar wariant cyhoeddus ac y gallant wneud newidiadau ystyrlon yn eu cymunedau.

Byddai deall sut mae refeniw'r dreth gyngor yn cael ei wario a chael llais ynghylch hyn yn helpu i gynyddu tryloywder, safbwyntiau ar werth am arian a gwella canfyddiadau cyffredinol o'r dreth gyngor a'r cynnydd sy'n digwydd bob blwyddyn.

7.8. Bandio tecach

Nid oedd llawer o ddealltwriaeth ynghylch sut y pennir swm y dreth gyngor, a chanfyddiad nad yw bob amser yn deg. Roedd rhai cyfranogwyr yn teimlo bod defnyddio gwerth tŷ fel mesur ar gyfer y dreth gyngor yn annheg, gan gymharu eu hunain â chymdogion "gwell eu byd". Soniodd cwpl o gyfranogwyr am etifeddu cartrefi mewn band uwch, ond nad oedd ganddynt yr incwm i gefnogi'r cynnydd cysylltiedig mewn taliadau treth gyngor.

Yn hytrach, roedd cred gyffredin y dylai'r dreth gyngor fod yn seiliedig ar brawf modd yn erbyn cyllid aelwydydd er mwyn asesu fforddiadwyedd, yn hytrach na seilio'r bil blynyddol ar werth yr eiddo.

Awgrym arall oedd ei gwneud yn ofynnol i eiddo sydd â nifer o breswylwyr ac enillwyr uwch dalu mwy o dreth gyngor, er mwyn ysgafnhau'r baich ar y rheini sydd ar incwm isel.

7.9. Cefnogaeth ychwanegol ar gyfer y rhwystrau a wynebir gan leiafrifoedd ethnig

Cafwyd awgrymiadau pellach gan bobl sy'n byw mewn cymunedau lleiafrifoedd ethnig. Gan amlaf roedd yn well ganddynt gael cyfathrebiadau - ysgrifenedig ac wyneb yn wyneb - yn eu hiaith eu hunain. Byddai cael llythyrau a biliau syml yn helpu pobl i ddeall a delio â'u treth gyngor yn fwy annibynnol.

Hoffent hefyd weld staff amlieithog penodol mewn canolfannau lleol ar gyfer cymorth wyneb yn wyneb, ynghyd â'r potensial ar gyfer gweithdai i egluro hawliau a chynlluniau disgownt.

Byddai mudwyr yn elwa o addysg am y dreth gyngor - beth ydyw, pam ei bod yn bwysig, sut i dalu a pha gymorth sydd ar gael.

8. Casgliadau

Roedd yr ymchwil hwn yn canolbwyntio ar brofiadau bywyd a chanfyddiadau tri grŵp poblogaeth blaenoriaethol - pobl sy'n byw mewn aelwydydd incwm isel, pobl o gymunedau lleiafrifoedd ethnig ac aelwydydd sy'n cynnwys person anabl, gyda llawer o nodweddion cyffredin o ran profiadau a safbwyntiau ar draws y tri.

Dewiswyd y grwpiau hyn oherwydd y gallent wynebu heriau ychwanegol wrth ryngweithio â system y dreth gyngor, felly roedd disgwyl y byddai cyfranogwyr yn debygol o ganolbwyntio ar heriau ac effeithiau'r dreth gyngor. Roedd yr ymchwil hwn yn canolbwyntio ar yr heriau hynny a'r rhwystrau a wynebwyd, er mwyn darparu tystiolaeth i lywio penderfyniadau Llywodraeth Cymru ar ddiwygio system y dreth gyngor.

Drwy'r grwpiau ffocws a'r cyfweiliadau manwl, roedd yn gyffredin i gyfranogwyr siarad am faterion, ofnau a phrofiadau negyddol sydd eisoes wedi cael sylw, neu sy'n cael sylw, gan Lywodraeth Cymru, fel dileu carcharu am beidio â thalu'r dreth gyngor, gwell cyfathrebu a chymorth i osgoi dyled ormodol.

Roedd rhai cyfranogwyr yn cydnabod bod y dreth gyngor yn angenrheidiol, gyda dealltwriaeth eang o sut mae'n cael ei defnyddio'n lleol ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus ac i helpu'r bobl hynny yn y gymuned sydd ei angen fwyaf.

Roedd teimlad cryf ymysg cyfranogwyr bod y dreth gyngor yn rhywbeth a orfodir arnynt, heb fawr ddim ymgynghori na deialog, os o gwbl. Fodd bynnag, nid oeddent yn cwestiynu ei fodolaeth, ond effaith y gost ar eu haelwydydd, ei thegwch, ei gwerth am arian a'r rhwystrau i gymorth.

Nid oedd llawer o'r materion a godwyd gan gyfranogwyr yn unigryw i un grŵp poblogaeth ac roeddent yn adlewyrchu pryderon a nodwyd yn gyffredin mewn ymchwil ehangach ar y dreth gyngor, gan gynnwys fforddiadwyedd, cyfathrebu, ymwybyddiaeth o gymorth a chanfyddiadau o degwch. Yn gyffredinol, cymharol brin oedd y canfyddiadau a oedd yn benodol i un grŵp yn unig. Yn hytrach, roedd gwahaniaethau'n tueddu i ymwneud â sut roedd heriau'n cael eu profi, neu'n cael eu gwneud yn anoddach gan amgylchiadau fel anghenion iaith, anabledd neu ansicrwydd ariannol, yn hytrach na materion ar wahân.

Ategwyd hyn hefyd yn y cyfweiliadau cwmpasu â sefydliadau cyngor a chymorth, a ddisgrifiodd faterion tebyg sy'n effeithio ar lawer o drigolion y maent yn eu helpu neu'n eu cynghori, gyda rhai grwpiau'n wynebu rhwystrau ychwanegol.

Canolbwyntiodd y cyfranogwyr ar gost y bil blyneddol, a oedd yn cael ei ystyried yn uchel, ac fel arfer dyma'r ail fil mwyaf yn y cartref, y tu ôl i rent neu forgais. Ystyriwyd bod y gost, sy'n cael ei hystyried yn orfodol, yn codi'n gyflymach nag incwm, ac ystyriwyd bod gwasanaethau cyhoeddus y telir amdanynt gan y refeniw a gynhyrchir wedi dirywio. Dywedodd rhai cyfranogwyr fod y gost yn gorfodi dewisiadau anodd rhwng talu eu bil a thalu am fwyd neu hanfodion eraill ac mae wedi achosi llawer iawn o straen a phryder o ganlyniad.

Roedd cyfranogwyr a oedd wedi mynd i ddyled neu wedi wynebu newid mewn amgylchiadau yn aml yn disgrifio rhyngweithiadau llawn straen, o ran llythyrau “bygythiol” canfyddedig a diffyg tosturi neu gydymdeimlad wrth geisio cymorth.

Roedd rhwystredigaeth ynghylch gwybodaeth a oedd yn cael ei chyfleu'n wael a diffyg gwybodaeth am gyfraddau gostyngedig a'r cymhwysedd ynghylch y rhain, yn ogystal ag ymwylbyddiaeth gyfyngedig o'r cymorth sydd ar gael. Fodd bynnag, dywedodd y rheini a oedd wedi cael cymorth, fel cynlluniau talu, eu bod yn gwerthfawrogi'r help, a gafodd effaith gadarnhaol ar eu haelwyd.

Roedd y cyfranogwyr hefyd eisiau gwybodaeth gliriach a mwy o dryloywder ynghylch sut mae referniw'r dreth gyngor yn cael ei wario.

Er gwaethaf pryderon, roedd cyfranogwyr am i'r system weithio'n well, nid osgoi talu, ac roeddent yn cynnig awgrymiadau ymarferol ynghylch biliau cliriach, gwell gwybodaeth a chyfeirio, cyfathrebu mwy tosturiol a mwy o dryloywder ynghylch sut mae referniw'r dreth gyngor yn cael ei wario.

Ar draws y tri grŵp poblogaeth blaenoriaethol, awgrymodd y cyfranogwyr amrywiaeth o welliannau ymarferol, llawer ohonynt yn canolbwyntio ar gyfathrebu, hyblygrwydd a mynediad at gymorth:

- dyneiddio cyfathrebu
 - wrth fynd ar drywydd ôl-ddyledion (iaith fwy meddal mewn llythyrau rhybudd am ôl-ddyledion)
 - agwedd fwy meddal wrth siarad â phobl am faterion ariannol fel dyledion, newidiadau mewn amgylchiadau a gostyngiadau posibl yn y dreth gyngor
 - lleihau faint o ailadrodd sy'n digwydd wrth ffonio'r cyngor, a achosir drwy siarad â rhywun gwahanol bob tro
 - cynnwys rhestr cwsmeriaid agored i niwed
 - symleiddio ffurflenni treth gyngor
- caniatáu i bobl ddewis sut i dalu eu treth gyngor
 - a yw eu bil wedi'i rannu dros 10 neu 12 mis
 - pennu eu dyddiad talu misol
- gwybodaeth gliriach ar wefannau awdurdodau lleol
- cynyddu gwybodaeth am ostyngiadau yn y dreth gyngor
- mwy o ymgysylltu â'r gymuned mewn perthynas â blaenoriaethau gwario'r cyngor
- cyflwyno biliau treth gyngor sy'n seiliedig ar brawf modd yn hytrach na'u seilio ar werth tai
- mwy o dryloywder ynghylch ble mae arian y dreth gyngor yn cael ei wario
- Gwella dealltwriaeth o gymorth i'r rheini sydd mewn argyfwng dyledion

Gwelliannau ychwanegol a awgrymir ar gyfer aelwydydd incwm isel:

- gwella cymhwysedd er mwyn i fwy o aelwydydd incwm isel allu cael gostyngiadau'r dreth gyngor

- mynd i'r afael â materion a achosir gan gyplau oedran cymysg o ganlyniad i newidiadau i Gredyd Cynhwysol, sy'n golygu y gall aelwydydd incwm isel golli gostyngiadau pan fydd un partner yn hawlio pensiwn y wladwriaeth

Gwelliannau ychwanegol a awgrymir ar gyfer pobl ag anableddau:

- ymestyn meini prawf anabledd ar gyfer cymorth neu ostyngiadau i'w gwneud yn fwy hygyrch

Awgrymiadau ychwanegol ar gyfer cymunedau lleiafrifoedd ethnig:

- cyfathrebu pwrpasol mewn mwy o ieithoedd, gan gynnwys cyfathrebu ysgrifenedig a chymorth wyneb yn wyneb lleol

Gwelliannau eraill a awgrymwyd:

- cynyddu'r cyfleoedd ar gyfer cymorth wyneb yn wyneb mewn canolfannau lleol i bobl hŷn
- gwella mynediad at gymorth wyneb yn wyneb i bobl sy'n byw mewn ardaloedd gwledig

Atodiad A: Cyfweiliadau cwmpasu

Sectorau a gynrychiolwyd

Cynhaliwyd cyfweiliadau cwmpasu gyda sefydliadau rhanddeiliaid sy'n gweithredu ar draws y sectorau canlynol:

- cyngor ar les a dyled
- cymorth tai a digartrefedd
- gwasanaethau eiriolaeth a chymorth anabledd
- mudiadau cefnogi lleiafrifoedd ethnig a mudwyr
- gwasanaethau allgymorth a chyngor cymunedol

Nid yw enwau rhanddeiliaid yn cael eu rhestru er mwyn gwarchod anhysbysrwydd.

Canllaw pwnc rhanddeiliaid

Defnyddiwyd y canllaw pwnc isod i strwythuro cyfweiliadau cwmpasu gyda sefydliadau rhanddeiliaid.

Cefndir

Bydd yr ymchwili yn canolbwyntio ar y tri grŵp poblogaeth canlynol:

- aelwydydd incwm isel, gan gynnwys y rheini sydd ar gyrion trothwyon cymhwysedd i gael cymorth, er mwyn amlygu;
- cymunedau lleiafrifoedd ethnig
- pobl anabl ac aelwydydd sy'n derbyn budd-daliadau anabledd.

Cyflwyniad

Byddwn yn siarad â phobl mewn grwpiau sy'n cael eu tangynrychioli ledled Cymru; er mwyn meithrin dealltwriaeth o'r effeithiau presennol a sut gallai diwygiadau parhaus i'r dreth gyngor leihau unrhyw effaith negyddol arnynt.

Yn benodol, byddwn yn siarad â phobl mewn aelwydydd incwm isel, cymunedau lleiafrifoedd ethnig a phobl sy'n cael budd-daliadau anabledd.

Heddiw, hoffwn ddysgu o'ch profiad o weithio gyda rhai o'r grwpiau hyn i helpu i lunio ein dull gweithredu a gwneud yn siŵr bod yr ymchwili yn adlewyrchu profiadau a heriau go iawn pobl.

Dealltwriaeth bresennol

- Ar sail eich profiad yn (sefydliad), ydych chi'n gwybod sut mae'r dreth gyngor yn chwarae rhan yng nghyllid yr aelwyd ar gyfer y grwpiau hyn?

Pwyntiau trafod:

- rheoli cyllidebau - sut mae'r dreth gyngor yn ffactor yng nghyllidebau aelwydydd a sut mae'r cyllidebau hyn yn cael eu rheoli i osgoi ôl-ddyledion treth gyngor, yn enwedig mewn aelwydydd incwm isel
- rheoli dyledion - sut mae dyled aelwydydd sy'n ymwneud ag ôl-ddyledion treth gyngor yn cael ei rheoli; effeithiau ôl-ddyledion treth gyngor; ac effaith ehangach ôl-ddyledion ar gyllid preswylwyr a bywyd bob dydd
- cymorth ariannol - os a sut mae preswylwyr yn cael gafael ar gymorth ariannol ar gyfer taliadau'r dreth gyngor, yn enwedig wrth wynebu caledi ariannol, gan gynnwys profiadau cadarnhaol a negyddol aelwydydd sy'n cael cymorth. Mae hyn yn cynnwys cymorth uniongyrchol ynghylch y dreth gyngor neu gymorth anuniongyrchol ynghylch rheoli cyllidebau (a oedd yn cynnwys y dreth gyngor)
- gwahaniaethau mewn canlyniadau - sut mae profiadau ac effeithiau'r uchod yn amrywio ar draws gwahanol ddemograffeg, grwpiau economaidd-gymdeithasol ac ardaloedd daearyddol
- Oes gennych chi unrhyw ddealltwriaeth o ba wybodaeth a chymorth y mae pobl fel arfer yn eu defnyddio, naill ai'n uniongyrchol o ran y dreth gyngor neu'n anuniongyrchol o ran rheoli cyllideb (a oedd yn cynnwys y dreth gyngor)?
- A yw pobl yn gyffredinol yn ymwybodol o'r cymorth sydd ar gael - er enghraifft, disgowntiau a gostyngiadau, cynlluniau talu, neu help gydag ôl-ddyledion? Ac a allent fod yn gymwys i gael y cymorth hwnnw.
- A oes rhwystrau rhag cael gafael ar y rhain?
 - Beth fyddai'n ei gwneud hi'n haws dod o hyd i'r cymorth hwn a'i ddefnyddio?

Heriau'r ymchwil

Nod yr ymchwil hwn yw deall profiad bywyd pobl o system y dreth gyngor, felly rydyn ni eisiau siarad ag amrywiaeth o bobl o'r grwpiau sy'n cael eu tangynrychioli rydyn ni wedi sôn amdany'n nhw.

- Yn eich barn chi, beth yw'r heriau o ran ymgysylltu â'r grwpiau hyn? (laith, daearyddiaeth, mynediad, hyder, cyfrinachedd ac ati)
- A oes unrhyw grwpiau, cymunedau neu ardaloedd penodol y dylem ymgysylltu â nhw yn eich barn chi?

- Oes gennych chi unrhyw awgrymiadau ynghylch sut y gallem ni weithio i oresgyn yr heriau hyn?

Cymorth ymchwil

Byddwn yn cynnal grwpiau ffocws a chyfweliadau un-i-un gyda phobl o'r grwpiau hyn a byddwn yn chwilio am gymorth gan y trydydd sector i helpu i rannu holiadur sgrinio ar gyfer cofrestru.

- A oes gennych unrhyw awgrymiadau ynghylch pwy y gallem droi atynt am gymorth gyda hynny?

Unrhyw beth arall?

- A oes unrhyw beth arall y dylem fod yn ymwybodol ohono neu'n ei ystyried wrth i ni fwrw ymlaen â'r gwaith hwn?

Atodiad B: Canllaw pwnc ymchwil preswylwyr

Defnyddiwyd un canllaw pwnc craidd ar gyfer grwpiau ffocws preswylwyr a chyfweliadau manwl un i un. Dyluniwyd y canllaw i fod yn hyblyg, gan ganiatáu i gymedrolwyr addasu awgrymiadau ychydig, yn dibynnu ar p'un a gynhaliwyd y drafodaeth mewn grŵp neu fel cyfweliad unigol, ac i ddarparu ar gyfer anghenion hygyrchedd, iaith neu gyfathrebu lle bo angen.

Defnyddiwyd yr un strwythur a themâu cyffredinol ar draws yr holl drafodaethau. Mewn cyfweliadau manwl, roedd cymedrolwyr yn caniatáu amser ychwanegol i archwilio amgylchiadau unigol yn fanylach, yn enwedig lle'r oedd cyfranogwyr yn trafod profiadau sensitif neu gymhleth.

Defnyddiwyd y canllaw pwnc isod ar gyfer:

- grwpiau ffocws preswylwyr ar-lein ac wyneb yn wyneb
- cyfweliadau manwl un i un.

Canllaw pwnc ar gyfer grwpiau ffocws a chyfweliadau manwl

Cefndir

Bydd yr ymchwil yn canolbwyntio ar y tri grŵp poblogaeth canlynol, er y gall cyfranogwyr berthyn i fwy nag un:

- aelwydydd incwm isel, gan gynnwys y rheini sydd ar gyrion trothwyon cymhwysedd i gael cymorth, er mwyn amlygu
- cymunedau lleiafrifoedd ethnig
- pobl anabl ac aelwydydd sy'n derbyn budd-daliadau anabledd.

Cynhesu

Nodiadau i gymedrolwyr: gall yr adran hon gymryd mwy o amser nag arfer. Defnyddiwch yr amser i annog cyfranogiad cyfeillgar a chadarnhaol.

Cyn i ni ddechrau, gadewch i ni i gyd gyflwyno ein hunain a dweud ychydig am ein haelwyd (lle rydyn ni'n byw, plant, partner, anifeiliaid anwes ac ati).

O ran y dreth gyngor, ym mha ffordd rydych chi'n delio â hi ar gyfer eich aelwyd?

Ymwybyddiaeth gyffredinol

Heddiw, byddwn yn siarad am y dreth gyngor, felly hoffem ddeall beth rydych chi'n ei wybod amdani.

- Pa dri gair fydddech chi'n eu defnyddio i ddisgrifio'r dreth gyngor? (Rhowch gyfle i bawb rannu, yna dewiswch rai i siarad amdany'n nhw)
- Beth yw'r dreth gyngor yn eich barn chi?
 - Pa mor hawdd neu anodd ydych chi'n ei chael hi i esbonio'r dreth gyngor yn eich geiriau eich hun?
- Sut bydddech chi'n ei disgrifio?
- Pwy sy'n rheoli'r dreth gyngor?
 - Pwy sy'n pennu'r dreth gyngor?
- Ar gyfer beth y defnyddir arian y dreth gyngor?
- A yw'n bwysig? Pam neu pam ddim?

Cymedrolwr: Defnyddiwch unrhyw beth a grybwyllir nad yw'n negyddol. Os yw'n briodol, gofynnwch am y cyfrifoldeb ar y cyd i dalu (cyfrannu at wasanaethau lleol?).

Profiad

Nodiadau i gymedrolwyr: mae'r cyfranogwyr yn gwybod beth yw pwrpas y grŵp ffocws hwn, felly efallai y byddant yn awyddus i siarad am rai pethau. Defnyddiwch yr amser hwn i wrando ar eu profiad, yn enwedig am effaith a heriau/rhwysterau, ynghyd ag unrhyw brofiad cadarnhaol.

Hoffem ddeall mwy am eich profiadau o'r dreth gyngor. Mae'n bwysig ein bod yn deall eich profiad, er mwyn i newidiadau yn y dyfodol allu cefnogi pobl yn y ffordd iawn.

- A fyddai unrhyw un yn hoffi rhannu unrhyw beth am ei brofiad o'r dreth gyngor a sut mae'n delio â hi? (Awgrym: Cyllidebu, Debyd Uniongyrchol, cynllun talu, heriau, proses, cefnogaeth, effaith ac ati)
- Beth yw'r prif heriau wrth feddwl am y dreth gyngor?
 - cael gwybod amdano a sut mae'n berthnasol iddyn nhw
 - deall y cyfrifoldeb i dalu
 - talu amdano (debyd uniongyrchol, ar-lein o'i gymharu â dros y ffôn o'i gymharu ag wyneb yn wyneb)
 - dealltwriaeth a llythrennedd (gan gynnwys y geiriau a'r iaith a ddefnyddir, gwybodaeth am faterion ariannol, a chymhlethdod y dreth gyngor, dod o hyd i wybodaeth, sut mae'n cael ei chyflwyno)
 - digidol a mynediad (mynediad ar-lein, hyder, gwefannau sy'n gydnaws â darllenwyr sgrin a llywio allweddell)

- iaith (nid yn unig ar wahân i'r Gymraeg a'r Saesneg, ond hefyd iaith hawdd ei deall, nam ar y golwg, iaith Arwyddion Prydain)
- cyfathrebu
- hyder
- Sut mae'r dreth gyngor yn cyd-fynd â'ch cyllideb gartref?
 - Sut ydych chi'n ei rheoli yn eich cartref?
 - Sut mae'n cyd-fynd â'ch rhestr o flaenoriaethau pan fyddwch chi'n cyllidebu bob mis?
 - A yw hynny'n amrywio o fis i fis?
- Oes gan unrhyw un brofiad o heriau talu eich bil neu o fod ar ei hôl hi gyda thaliadau'r dreth gyngor?
 - A allech ddweud wrthym am hynny?
- Sut wnaeth hyn effeithio arnoch chi? (Yn emosiynol, ariannol, effaith ar filiau eraill, bywyd bob dydd etc. holwch am effaith emosiynol, er enghraifft straen, stigma, teimlad o gael eu barnu)
- Sut wnaethoch chi ddelio â'r sefyllfa?

Y cymorth sydd ar gael

Pob cymorth: Gan feddwl am y dreth gyngor, mae rhywfaint o gymorth ar gael i helpu.

- A oes unrhyw un wedi chwilio am gymorth neu gyngor ynglŷn â'u treth gyngor?
 - Allwch chi ddisgrifio beth ddigwyddodd?
 - Pam wnaethoch chi ofyn am gymorth neu gyngor?
 - Pryd wnaethoch chi chwilio am gymorth? (Cyn mynd i ôl-ddyledion, pan fydd gennych ôl-ddyledion, pan gyrhaeddodd beilïod ayb)
 - At bwy aethoch chi am help?
 - Sut clywsoch chi am y cymorth hwnnw?
 - Gawsoch chi eich atgyfeirio i rywle arall?
 - Gawsoch chi help i ddod o hyd i gymorth gan rywun rydych chi'n ei adnabod, er enghraifft aelod o'r teulu, ffrind neu weithiwr cymorth?
 - Wnaethoch chi ddod ar draws unrhyw heriau wrth ddysgu am help neu gyngor, neu wrth geisio cael help neu gyngor?
 - Beth oedd yn anodd?

- Sut y gellid gwella hynny?
- Pa gymorth / newid fyddai wedi helpu?
- Gawsoch chi unrhyw gymorth neu gyngor?
 - Pa fath?
- Ai dyma beth oeddech chi'n ei ddisgwyl? (Archwiliwch)
- Oeddech chi'n gallu cael gafael ar y cymorth neu'r cyngor roeddech chi'n chwilio amdano? (Archwiliwch unrhyw rwystrau fel iaith, dealltwriaeth, math o gyfathrebu, ar-lein, wyneb yn wyneb neu gyfathrebu ysgrifenedig)
- Oeddech chi'n hapus gyda'r canlyniad? Pam neu pam ddim?
- A oedd unrhyw beth cadarnhaol neu negyddol am y profiad hwn? Beth?
- A oedd unrhyw beth arall am y profiad yr hoffech ei rannu?
- Os na chrybwyllwyd hynny, wnaethoch chi edrych ar-lein, ffonio rhywun, neu siarad wyneb yn wyneb? (Holwch am ddigidol o'i gymharu ag wyneb yn wyneb)
 - Pa un weithiodd orau?

Cymorth penodol: Mae rhywfaint o gymorth ar gael i helpu gyda'r dreth gyngor.

- Mae hyn yn cynnwys disgowntiau, gostyngiadau, cynlluniau talu a help gydag ôl-ddyledion - codwch eich llaw os ydych chi'n gwybod am unrhyw un o'r rhain? (CYFRIF)
- Y rheini ohonoch sy'n gwybod am hynny, pa ddisgowntiau neu gyfraddau gostyngedig ydych chi'n ymwybodol ohonynt?
- Oes gan unrhyw un brofiad o ddefnyddio'r math hwn o gymorth?
 - A fydddechystal â dweud wrthym pa fath o gymorth rydych chi wedi'i gael?
 - Pryd wnaethoch chi ddechrau chwilio am gymorth? (Cyn ôl-ddyledion, mewn ôl-ddyledion, ar ôl uwchgyfeirio)
 - Pam?
 - Allwch chi gofio sut gwnaethoch chi ddysgu am y cymorth hwn?
 - Allwch chi ddisgrifio'r broses o wneud cais am y cymorth? (Archwiliwch unrhyw rwystrau i fynediad)
 - Oeddech chi'n gallu cael gafael ar y cymorth roeddech chi'n chwilio amdano? (Archwiliwch unrhyw rwystrau)

- Wnaethoch chi ddod ar draws unrhyw heriau wrth ddysgu am help neu gyngor, neu wrth geisio cael help neu gyngor?
 - Beth oedd yn anodd?
 - Sut y gellid gwella hynny?
 - Pa gymorth / newid fyddai wedi helpu?
- Oedd unrhyw beth cadarnhaol am eich profiad? Beth?
- Ydych chi'n meddwl bod y cymorth sydd ar gael yn deg? Pam neu pam ddim?
- A oes unrhyw beth arall y credwch y gallai eich cyngor lleol neu Lywodraeth Cymru ei wneud i helpu pobl i ddelio â'r dreth gyngor?

Gwiriwch fod yr holl bwyntiau trafod wedi'u trafod:

- rheoli cyllidebau - sut mae'r dreth gyngor yn ffactor yng nghyllidebau aelwydydd a sut mae'r cyllidebau hyn yn cael eu rheoli i osgoi ôl-ddyledion treth gyngor, yn enwedig mewn aelwydydd incwm isel
- rheoli dyledion - sut mae dyled aelwydydd sy'n ymwneud ag ôl-ddyledion treth gyngor yn cael ei rheoli; effeithiau ôl-ddyledion treth gyngor; ac effaith ehangach ôl-ddyledion ar gyllid preswylwyr a bywyd bob dydd
- cymorth ariannol - os a sut mae preswylwyr yn cael gafael ar gymorth ariannol ar gyfer taliadau'r dreth gyngor, yn enwedig wrth wynebu caledi ariannol, gan gynnwys profiadau cadarnhaol a negyddol aelwydydd sy'n cael cymorth.
 - mae hyn yn cynnwys cymorth uniongyrchol ynghylch y dreth gyngor neu gymorth anuniongyrchol ynghylch rheoli cyllidebau (a oedd yn cynnwys y dreth gyngor)
- gwahaniaethau mewn canlyniadau - sut mae profiadau ac effeithiau'r uchod yn amrywio ar draws gwahanol ddemograffeg, grwpiau economaidd-gymdeithasol ac ardaloedd daearyddol

Unrhyw beth arall?

- Cyn i ni orffen, pe gallech newid un peth am sut mae'r dreth gyngor yn gweithio neu sut mae pobl yn cael cymorth, beth fyddai hynny?
- Yn olaf, a oes gan unrhyw un unrhyw beth arall yr hoffent ei rannu am eu profiad o'r dreth gyngor?